



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

Effaith y Chwyldro Ffrengig a Rhyfeloedd Napoleon

Beth oedd y prif bwysau oedd yn wynebu'r wlad tua 1810?

Dylanwad y Cymdeithasau Gohebu


Roedd Ewrop yn wynebu cynnwrf gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Bu'r **Chwyldro Ffrengig** a ddechreuodd yn 1789 yn benllanw cenedlaethau o orthrwm a arweiniodd, yn y pen draw, at gwmp y Bastille. Ar yr adeg hon roedd Prydain ar drothwy'r **Chwyldro Diwydiannol**. Cymysg fu'r ymatebion i'r Chwyldro ym Mhrydain, ond un peth a wnaeth yn sicr oedd ysgogi dadl eang a dwys am y system wleidyddol ym Mhrydain ei hun.

Un cyhoeddiad hynod bwysig yn ystod y cyfnod hwn oedd y llyfr *Rights of Man*, gan **Thomas Paine**. Credai Paine mai yn nwylo'r bobl roedd grym, gan nodi y dylai fod gan bawb yr hawl i fod yn rhan o'r drefn lywodraethu. Cafodd y llyfr ei argraffu a'i ddarllen yn eang, ond arweiniodd at adwaith ymhlith y dosbarthiadau llywodraethol ym Mhrydain a gredai'n fwyfwy bod syniadau o'r fath yn beryglus i'r sefyllfa fel ag yr oedd. O ganlyniad, cafodd cyfres o **gyfreithiau gorthrymus** eu pasio ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda'r nod o reoli cyhoeddi deunydd a oedd yn cynnwys syniadau Radicalaidd a gynigai ddiwygiadau gwleidyddol cyffredinol.

Fodd bynnag, cafodd llawer eu hysbrydoli gan syniadau a digwyddiadau'r Chwyldro Ffrengig a'r hyn a ysgrifennwyd gan bobl fel Paine. Ffurfiodd grwpiau o bobl, a oedd yn galw eu hunain yn Radicalaidd, **Gymdeithasau Gohebu** mewn rhai o'r trefi mawr. Dechreuodd y grwpiau hyn gyfarfod ar adeg y Chwyldro Ffrengig. Ar ddiwedd 1791, sefydlwyd y Gymdeithas Ohebu gyntaf yn **Sheffield** ac erbyn 1792 roedd ganddi fwy na 2,000 o aelodau. Daeth yn flaenllaw iawn o ran ysgogi dadl wleidyddol a hyd yn oed cynnwrf yn y rhanbarth.

Ym mis Ionawr 1792, sefydlwyd **Cymdeithas Ohebu Llundain** gan grydd o'r enw Thomas Hardy. Roedd aelodaeth yn agored i unrhyw un a fedrai dalu ceiniog ym mhob cyfarfod wythnosol. Yn fuan wedyn mabwysiadodd y Gymdeithas raglen a fyddai'n sail i ofynion y mudiad Radicalaidd: **pleidlais gyffredinol i ddynion; seneddau blynyddol ac aildodosbarthu 'bwrdeistrefi pwdr' i'r trefi mawr**. Tyfodd yn gyflym, gan ddatblygu strwythur hynod drefnus, ond gwnaeth hefyd

[Thomas Paine, ffigwr a fu'n allweddol i ysbrydoli cychwyn syniadau Radicalaidd]



Gan Matthew Pratt (1734-1805) – Rhan o Gasgliad Kirby o Baentiadau Hanesyddol, Casgliad Celf Coleg Lafayette, Easton, Pa., Parth Cyhoeddus, - <https://goo.gl/XY6VY0>



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

ddenu sylw'r Llywodraeth a oedd yn benderfynol o roi terfyn ar ei gweithgareddau.

Erbyn 1794, roedd y **Llywodraeth yn ofni** y byddai **chwyldro** ym Mhrydain ac arweiniodd hyn at **arestio** rhai o arweinwyr cymdeithas Llundain, gan gynnwys Hardy, a chafodd pob un ei gyhuddo o frad. Er i'r dynion gael eu rhyddfarnu am fod yr honiadau yn gwbl ddi-sail, yn sgil pasio'r Ddeddf Brad a'r Ddeddf Cyfarfodydd Bradwrus yn 1795, aeth yn fwyfwy anodd i Gymdeithasau Gohebu drefnu cyfarfodydd mawr. O ganlyniad i'r deddfau llym hyn, gwanhau a wnaeth y mudiad a phasiwyd **deddf yn 1799 yn gwahardd** Cymdeithas Ohebu Llundain ac eraill a thrwy hyn rhoddwyd terfyn ar y cyfnod cynnar hwn o weithgarwch Radicalaidd.

Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, chwaraeodd y Cymdeithasau Gohebu rôl bwysig o ran rhoi trefniadaeth a chyfeiriad i'r rhai a oedd yn awyddus i ddiwygio'r system wleidyddol. Roedd **Rhyfeloedd Napoleon**, a fyddai'n para rhwng 1803 a 1815, yn cyd-daro â'r cynnwrf a achoswyd gan y **Chwyldro Amaethyddol a'r Chwyldro Diwydiannol** a, gyda'i gilydd, byddent yn rhoi hwb i'r galw am ddiwygio'r systemau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol ym Mhrydain. Dyma'r cyfnod pan fyddai Radicaliaeth yn datblygu fel grym mawr er newid.

Effaith y rhyfel ar yr economi; milwyr wedi'u dadfyddino; y Deddfau Yd

Cafodd Rhyfeloedd Napoleon effaith enfawr ar yr economi. Ym Mhrydain roedd cost y rhyfel wedi arwain at **ddyled genedlaethol** o £861 miliwn. Roedd trethi yn uchel ac yn hynod amhoblogaidd. Yn 1814-15, er gwaethaf trethi uchel, gwariodd y llywodraeth 45 y cant yn fwy na'i hincwm o drethiant. Roedd cost talu'r llog ar fenthyciadau yn aruthrol, gan gyfrif am tua 80 y cant o wariant y llywodraeth. O ganlyniad, prif flaenoriaethau'r Llywodraeth Dorïaidd a ddaeth i rym o dan yr **Arglwydd Liverpool** yn 1815 oedd ad-dalu'r ddyled genedlaethol a lleihau gwariant cyhoeddus.

Roedd **treth incwm** yn amlwg yn ffynhonnell bwysig o refeniw i'r Llywodraeth. Fodd bynnag, pan ddaeth y rhyfel i ben cafwyd galw cynyddol o blaid ei diddymu, yn enwedig ymhlith y tîrfeddianwyr. Yn 1815-16, trefnodd y Chwigiaid ymgyrch lwyddiannus yn erbyn y dreth, a gafodd ei phasio gan y Senedd er gwaethaf ymdrechion Liverpool i'w hatal. Er bod diddymu treth incwm yn boblogaidd, roedd effaith hynny ar gyllid y llywodraeth yn amlwg. Er mwyn gwneud iawndal am y refeniw a gollwyd, bu rhaid i Liverpool dorri gwariant y llywodraeth, benthyca mwy o arian ac, yn bwysicach na dim, gynyddu **trethiant anuniongyrchol. Ar y tlodion**, yn anochel, y cafodd trethi o'r fath ar brynu nwyddau **yr effaith fwyaf, gan arwain at brisiau uwch** am nwyddau bob dydd fel bwyd.

Un o effeithiau eraill diwedd Rhyfeloedd Napoleon oedd y cynnydd mewn **diweithdra**. Roedd newidiadau ym myd amaethyddiaeth, fel y broses cau tiroedd a mecaneiddio cynyddol yn y diwydiant tecstilau, wedi arwain at ostyngiad yn nifer y llafurwyr yr oedd eu hangen. Ond yn bwysicach na hynny oedd yr effaith a gafodd **milwyr a llongwyr** ar ddiweithdra. Cafodd **tri chan mil o ddynion** eu rhyddhau o'r fyddin neu'r llynges ac roedd pob un yn dychwelyd i wlad lle roedd dod o hyd i waith eisoes yn her. Dioddefodd y diwydiannau a ysgogwyd gan ryfel, fel tecstilau, haearn ac arfau, i gyd o ganlyniad i ddiwedd y rhyfel, gan waethygu'r sefyllfa.

1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

Aeth mater **ŷd** hefyd â llawer o sylw'r llywodraeth yn ystod y cyfnod hwn. Arweiniodd cyfres o gynaeafau da rhwng 1813 a 1815 at ormodedd o ŷd gan achosi **gostyngiad yn y prisiau**. Yn amlwg, rhoddodd hyn ffermwyr o dan gryn bwysau, gan leihau incwm y pendefigion a'r bonheddwyr. Eu hymateb cyntaf oedd **lleihau cyflogau**, ond yna drwy eu dylanwad yn y Senedd llwyddwyd i basio **Deddfau ŷd 1815**. O dan y gyfraith hon gwaharddwyd mewnforio ŷd nes bod pris ŷd a oedd yn cael ei dyfu yn y wlad hon yn cyrraedd 80 swllt y chwarter (12.7 kg). Nod amlwg y gyfraith oedd ceisio cadw pris ŷd yn uchel, a oedd yn golygu, er bod hynny yn gwarchod incwm tirfeddianwyr, fod pris bwyd, yn enwedig bara, yn cynyddu gan gosbi'r dosbarth gweithiol fwyaf.

Cafodd pasio'r Deddfau Yd effaith ar unwaith. Y tu allan i'r Senedd roedd rhai o'r farn eu bod yn **hunanol ac yn anghyfiawn** – baich arall eto ar y tlodion er budd y dosbarth tîrfeddiannol cyfoethog. Trefnwyd deisebau a chafwyd **terfysgoedd** yn Llundain ym mis Mawrth 1815, a bu'n rhaid defnyddio milwyr i adfer trefn. Cyfrannodd y cynnydd ym mhrisiau bwyd a achoswyd gan y Deddfau Yd at gyfyngder ymhlith y dosbarth gweithiol ledled y wlad, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Adwaith arall i'r Deddfau Yd oedd y terfysgoedd bwyd yn 1816 a 1818, a ddaeth yn ffocws gwrthdystio dosbarth gweithiol yn ystod y cyfnod hwn. Yn wir, yn ystod y cyfnod hwn byddai cyfuniad o ffactorau yn dod ynghyd bellach i gynnig mater cyffredin a fedrai uno pobl – sef **diwygio'r senedd**.

[Barn y cartwnydd Radicalaidd George Cruikshank am y Deddfau ŷd. Mae tirfeddianwyr cyfoethog yn gwrthod derbyn ŷd rhad o dramor, gan ddweud, os na all y tlodion ei brynu am eu pris nhw, rhaid iddynt lwggu. Mae'r dyn â'i deulu yn gwrthod gwneud hynny ac yn dweud y byddai'n well ganddo fynd i wlad fwy cyfeillgar na dioddef o dan ormes y cyfoethogion.]





1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

Y galw am ddiwygio'r senedd; effaith diwydiannu ar ffordd o feddwl y Radicaliaid

Yn ystod y cyfnod hwn, ychydig iawn o bobl a oedd â'r hawl i bleidleisio. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, **dim ond dynion a oedd yn berchen ar eiddo** a fedrai bleidleisio – nid oedd gan drwch y boblogaeth fawr ddim llais yn y broses o ddewis ASau. Roedd dau fath o **etholaeth** (ardal a gynrychiolir gan AS) – **siroedd a bwrdeistrefi**. Mewn etholaethau sirol roedd gan bob dyn a oedd yn berchen ar eiddo rhydd-ddaliadol gwerth dros 40 swllt y flwyddyn yr hawl i bleidleisio. Mewn bwrdeistrefi, neu drefi, roedd y cymhwyster pleidleisio yn llawer mwy cymhleth gyda gwahanol reolau yn gymwys. Er enghraifft, mewn **bwrdeistref gorfforaeth** dim ond yr aelodau hynny o gorfforaeth y dref (cyngor) a fedrai bleidleisio. Mewn **bwrdeistref potferwyddion** dim ond y rhai a oedd yn berchen ar eiddo, lle tân a drws cloadwy a fedrai bleidleisio, a phrofwyd hynny drwy ysgwyd eich allwedd yn eich potferw!

Peth rhyfeddach fyth oedd dosbarthiad ASau ymhlith etholaethau. Ar gyfartaledd, roedd ychydig dros **700 o bleidleiswyr** ym mhob etholaeth, ond cyfartaledd oedd hyn. Er enghraifft, roedd Manceinion yn 1750 yn bentref bron ac felly nid oedd ganddi AS ond oherwydd y Chwyldro Diwydiannol roedd 182,000 o drigolion yn byw ym Manceinion erbyn 1830 – ond er gwaethaf hynny nid oedd ganddi AS.

Ar y llaw arall roedd **llawer o drefi wedi crebachu** wrth i bobl symud i'r trefi diwydiannol newydd a oedd ar gynnydd, ond eto i gyd roedd ganddynt ASau i'w cynrychioli. Roedd y rhain yn cael eu galw'n **fwrdeistrefi pwdr** a buont yn achosi cryn dipyn o anafodlonrwydd ymhlith y rhai a oedd yn galw am ddiwygio'r senedd. Er enghraifft, erbyn 1830 nid oedd Old Sarum yn Wiltshire yn ddim byd mwy na phen bryn gwyntog a chastell, ond bob amser roedd etholiad byddai saith o bleidleiswyr yn cyfarfod i ddewis eu dau AS. Yn Gatton yn Surrey, roedd hyd yn oed yn haws – dim ond un pleidleisiwr oedd yno.

Roedd bwrdeistrefi pwdr yn aml yn etholaethau lle roedd **llygredd a llwgrwobrwyo** yn rhemp. Yn amlach na dim roedd y rhan fwyaf o'r pleidleiswyr yn gweithio i dirfeddiannwr lleol a/neu'n rhentu tir oddi wrtho. Roeddent yn pleidleisio dros yr unigolyn yr oedd y tirfeddiannwr yn dweud wrthyn nhw am bleidleisio drosto. Term arall am yr etholaethau hyn oedd **bwrdeistref poced**, am eu bod ym mhoced y tirfeddiannwr lleol.

Mewn rhai mannau lle roedd llawer o bleidleiswyr, efallai y byddai etholiad go iawn yn cael ei gynnal gyda sawl ymgeisydd. Fodd bynnag, gan fod etholiadau'n cael eu **cynnal yn gyhoeddus** bu'n rhaid i bob pleidleisiwr gyhoeddi dros bwy roedd yn bwrw pleidlais. Gan fod miloedd yn aml yn dod i wyllo'r etholiad, efallai y byddai difriö, bygythiadau a hyd yn oed llofruddiaeth pe na bai rhywun yn pleidleisio dros yr ymgeisydd 'cywir'. O ganlyniad i hyn roedd llwgrwobrwyo yn beth cyffredin – yn Lerpwl yn 1830 er enghraifft, erbyn tua diwedd yr etholiad roedd y pris am bleidlais wedi codi i £150.



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

[Barn George Cruikshank am y system bwrdeistrefi pwdr – 'The System that Works so Well'. Ynndo gallwch weld melin sy'n cynrychioli'r Senedd ynghyd ag enwau'r gwahanol fwrdeistrefi pwdr arni. O dan y 'felin' mae'r tlodion, y werin bobl sydd ddim yn gallu pleidleisio. Cynhelir 'pont y bwrdeistrefi' gan reifflau, sy'n cynrychioli'r fyddin ac mae'r bwrdeistrefi pwdr hyn yn arllwys llwythi o 'swyddi', 'pensiynau', 'contractau'r llywodraeth' ac ati. Caiff y rhain eu gwthio'n farus i mewn i boced i'r dosbarthiadau llywodraethol o fowlen 'arian cyhoeddus'.]



© Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Brydeinig

Roedd llawer o bobl o'r farn mai'r system seneddola'i drwg arferion oedd wrth wraidd dioddefaint y mwyafrif o'r boblogaeth. Fel y cyfryw, daeth y galw am ddiwygio'r senedd yn rhywbeth a unodd y **Radicaliaid**. Roeddent yn credu bod y rhan fwyaf o bobl yn cael eu trin yn annheg o ran cyflog ac amodau byw am nad oedd ganddynt **lais gwleidyddol**. Er nad oedd y Radicaliaid yn grŵp unedig, roedd ychydig o ffigyrau cenedlaethol. **Uwchgaptan John Cartwright** oedd un o'r rhai enwocaf. Ymgyrchodd dros:

- y bleidlais i bawb (a oedd bryd hynny'n golygu pleidlais i bob dyn)
- Seneddau Blynnyddol
- Pleidlais drwy bleidlais gyfrinachol

Y rhain oedd y pethau mwyaf cyffredin roedd yr holl grwpiau Radicalaidd yn galw amdanynt, ond roeddent hefyd yn ymgyrchu'n frwd dros **ddiddymu'r Deddfau ŷd**.

Dau Radical enwog arall oedd **Henry (Orator) Hunt** a **William Cobbett**. Roedd Hunt, fel y mae ei lysenw yn ei awgrymu, yn **siaradwr cyhoeddus gwyh** a oedd yn annerch torfeydd o ddegau o filoedd o bobl yn rheolaidd, gan fynnu diwygiadau Radicalaidd. Roedd Cobbett yn hynod ddylanwadol fel **newyddiadurwr**. Cafodd ei gyfnodolyn wythnosol **Political Register**, effaith enfawr – roedd 200,000 o gopiau o'r rhifyn cyntaf wedi'u gwerthu erbyn diwedd 1817. Rhoddodd Cobbett fai ar y gyfundrefn wleidyddol am y tlodi a'r drwg arferion a oedd yn bodoli.



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

Roedd y Radicaliaid yn awyddus i fanteisio ar yr anfodlonrwydd cyffredinol ledled y wlad i dynnu sylw at fater diwygio'r senedd. Sefydlwyd mannau cyfarfod neu **Glybiau Hampden** i drafod diwygiadau a chafodd y mater gryn dipyn o sylw ledled y wlad.

Roedd **diwydiannu**, yn ddi-os, wedi ailffurfio Prydain, gan greu dosbarth gweithiol diwydiannol yn y trefi a'r dinasoedd nad oeddent mwyach yn fodlon derbyn y sefyllfa fel ag yr oedd wedi bod ers canrifoedd. Cafodd **syniadau gwleidyddol** eu lledaenu a'u trafod bellach, sef ffaith a gydnabuwyd gan bobl fel Cobbett a'r bardd a Radical o Swydd Gaerhirfryn, Samuel Bamford. Roedd poblogaeth ardaloedd gwledig wedi crebachu ond roedd dylanwad yr ardaloedd hynny yn enfawr. Ar y cyfan, nid oedd yr ardaloedd diwydiannol newydd yn cael eu cynrychioli, nac ychwaith y **dosbarth canol cyfoethog, newydd** o farsiantwyr a gweithgynhyrchwyr a allai weld yn glir bod y gyfundrefn seneddol yn eu herbyn. Felly roedd **syniadau radical** yn ystod y cyfnod hwn wedi'u targedu at yr union bobl a oedd wedi'u hallgáu o'r gyfundrefn wleidyddol ac, fel y gwelir, cyfrannodd hynny at brotestiadau a fyddai'n dylanwadu ar hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru a Lloegr.

Dechreuad protestiadau

Pa brotestiadau oedd y rhai mwyaf arwyddocaol yn ystod y cyfnod 1810-1832?

Achosion a digwyddiadau'r prif fathau o brotestiadau Protestiadau'r Ludiaid 1811-1812

Bu goblygiadau pellgyrhaeddol i gymdeithas ym Mhrydain o ganlyniad i'r newid graddol, diwrthdro o **System Ddomestig** i **System Ffatri**. O un genhedlaeth i'r llall nid oedd ffordd o fyw gweithwyr diwydiannau bwthyn wedi newid fawr ddim. Yn y diwydiant brethyn, roedd gwaith cribo, nyddu a gwehyddu wedi cael ei wneud gan y teulu, gan gynnwys y plant, yng nghyfyngder y cartref. Roedd y cynnydd cymharol araf yn y boblogaeth a'r diffyg cystadleuaeth yn golygu bod dim pall ar y gwaith, bod sgiliau yn cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall a bod modd rhygnu byw. Fodd bynnag, byddai'r datblygiadau, yn enwedig yn y **diwydiant cotwm** yn y ddeunawfed ganrif yn esgor ar fyd newydd, datblygiadau a fyddai'n trawsnewid gwedd cymdeithasol am byth.


'Gwennol hedegog' John Kay, a ddyfeisiwyd ganddo yn 1733, oedd y cyntaf o blith sawl dyfais arloesol bwysig a fyddai yn y pen draw yn arwain at sefydlu'r System Ffatri. Yn 1764 dyfeisiodd James Hargreaves y 'siani nyddu' a fecaneiddiodd y broses o nyddu, gan leihau nifer y nyddwyr a oedd eu hangen. Yn 1769, dechreuwyd ar yr ymgyrch i ddiwydiannu drwy ffrâm dŵr Richard Arkwright a'r defnydd ohono yn yr hyn a oedd i bob diben yn ffatrioedd cyntaf y byd. Cafodd y broses weithgynhyrchu ei chwyldroi gan ddyfeisiau eraill fel y mul nyddu a'r gwŷdd peiriannol. Yn 1770 er enghraifft, roedd y diwydiant cotwm yn werth £600,000, ffigur a oedd wedi codi i £10,500,000 erbyn 1805. Er bod effaith economaidd y datblygiadau hyn yn fuddiol i weithgynhyrchwyr, a dweud y lleiaf, cawsant **effaith gymdeithasol ac economaidd** ddinistriol ar bobl fel gwehyddion llaw crefftus.



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

Un ffordd yr amlygodd effaith y newidiadau a ddaeth yn sgil y Chwyldro Diwydiannol, oedd ym mhrotest y **Ludiaid**. Roedd degawd cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi'i nodweddu gan galedi a achoswyd gan ofynion ac effeithiau Rhyfeloedd Napoleon. Yn sgil diweithdra a phrisiau bwyd cynyddol a chynaeafau gwael crëwyd amodau enbyd i niferoedd mawr o'r dosbarth gweithiol yng Nghymru a Lloegr. Drwy'r ffactorau hyn ynghyd â **mecaneiddio** cynyddol a'r defnydd o **lafur di-grefft** daeth **mudiad y Ludiaid** i fodolaeth – protest eang yn erbyn peiriannau ac arferion gwaith newydd a danseiliodd gyflogau gweithwyr crefftus.

[Darlun diweddarach o weithgarwch y Ludiaid, dyddiedig 1844]



Parth Cyhoeddus - <https://goo.gl/aCkZuE>

Yr honiad yw i **Ludiaeth** gael ei henwi ar ôl prentis ifanc o'r enw **Ned Ludd** y dywedir iddo ddinistrio ffrâm hosanau ar ddiwedd y 1770au. Daeth yn fudiad cyfundrefnol a oedd yn defnyddio'r teitl 'General Ludd' neu 'King Ludd' yn ei lythyrau bygythiol a'i ddatganiadau. Mae'n ymddangos iddo ddechrau ym mis Mawrth **1811** yn **Nottingham**. Ym mis Tachwedd yn ystod yr un flwyddyn gwelwyd ymosodiadau eang gan **'hosanwyr'** neu 'weuwyr ffrâm', sef gweithwyr crefftus a gynhyrchai hosanau ar fframiau. Er mwyn protestio yn erbyn y defnydd o lafur di-grefft a'r fframiau newydd a gynhyrchai frethyn o safon is, aethant ati i anfon llythyrau at berchenogion ffatrioedd yn dweud wrthynt am dynnu eu fframiau ac i fygwth torri i mewn i ffatrioedd a dinistrio'r peiriannau pe baent yn gwrthod gwneud hynny. Erbyn dechrau **1812** roedd yr ymosodiadau wedi lledaenu i West Riding yn **Swydd Gaerefrog** lle cymerodd **tocwyr** hynod grefftus ran mewn cyrchoedd yn ystod y nos i ddinistrio fframiau a gweithdai. Tocwyr oedd y gweithwyr a oedd yn gorffen darnau o frethyn ac roedd eu bywoliaeth wedi cael ei dinistrio bron yn gyfan gwbl gan ddyfais y ffrâm llafnu.

Roedd yr awdurdodau yn ei chael hi'n anodd dal y protestwyr. Roedd llawer o Ludiaid wedi ymdrefnu'n gymdeithasau cyfrin lle y câi llw ei dyngu er mwyn sicrhau teyrngarwch ac atal aelodau rhag cael eu dal. Roedd cymunedau lleol yn amharod i roi gwybodaeth am y Ludiaid a oedd, wedi'r cyfan, yn ceisio gwarchod ffordd o fyw'r cymunedau hynny. Fodd bynnag, am nad oeddent yn gallu cael tystiolaeth yn hawdd, roedd adwaith yr awdurdodau yn llym dros ben. Er bod mesurau yn bodoli i ymdrin â gweithgareddau o'r fath, pasiodd y llywodraeth **Ddeddf Torri Fframiau 1812**, a gyflwynodd y **gosb eithaf** yn benodol am dorri fframiau. Anfonwyd llawer mwy o filwyr i'r ardaloedd dan sylw, a lleihaodd nifer yr ymosodiadau, yn enwedig yn Swydd Nottingham.

Fodd bynnag, yn ystod misoedd cyntaf 1812 gwelwyd llawer o weithgarwch Ludiaid mewn rhannau o Swydd Gaerefrog, gydag ymosodiadau ar felinau a hyd yn oed perchenogion melinau yn dod yn fwy cyffredin. Ar ôl gwrthdrawiadau â milwyr mewn ymosodiadau yn West Riding, cafodd perchennog y felin William Horsfall, a oedd yn beirniadu'r Ludiaid yn hallt, ei lofruddio mewn ymosodiad dialgar. Cafodd yr ymosodwyr, o dan arweiniad dyn o'r enw George Mellor, eu harestio o'r diwedd ym mis Hydref 1812 a **chrogwyd** 16 o ddynion eraill ym mis Ionawr 1813.



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

Rhoddwyd y gosb hon i Mellor a'i gyd-Ludiaid er mwyn atal gweithgareddau tebyg eraill. Fodd bynnag, yn ystod eu cyfnod mwyaf gweithredol, dinistriodd y Ludiaid filoedd o fframiau ac mewn rhai lleoedd llwyddon nhw i o leiaf godi ofn ar berchenogion melinau a'u gorfodi i godi cyflogau a rhoi'r gorau i ddefnyddio fframiau lletach. Fodd bynnag, rhoddwyd terfyn ar y protestiadau i bob diben gan ymateb llym y llywodraeth, protestiadau i bob diben yn erbyn yr ymgais i chwalu'r hen drefn a'r ffordd o weithio drwy ddyfodiad diwydiannu.

Terfysgoedd Spa Fields, 1816; Gorymdaith y Blancedwyr, 1817

Bu'r newidiadau mewn bywyd gwaith, a oedd yn cael effaith mor ddwys ar y rhan fwyaf o'r boblogaeth yn cyfrannu, yn ddi-os, at y galw am ddiwygio'r Senedd. Er bod protestiadau'r Ludiaid yn ymateb i newidiadau penodol mewn arferion gwaith, yn ystod y cyfnod rhwng 1816 a 1820 gwelwyd sawl protest mawr a gyfunodd ffactorau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd fel eu prif sbardun.

Cafodd yr aflonyddwch gwleidyddol ar ôl diwedd Rhyfeloedd Napoleon yn 1815 ei danio gan dwf Radicaliaeth yn llawer o ardaloedd gweithgynhyrchu'r wlad. Ym mis Tachwedd 1816, gwahoddwyd **Henry Hunt**, sef y siaradwr Radicalaidd mwyaf blaenllaw yn y wlad, i annerch cyfarfod protest yn **Spa Fields**, Islington, Llundain, gyda'r nod o ennyn cefnogaeth i gyflwyno deiseb i'r **Rhaglyw Dywysog** yn gofyn i'r Senedd gael ei diwygio ac am gymorth cyffredinol i'r boblogaeth a oedd yn wynebu caledi economaidd. Ar 15 Tachwedd, cynhaliwyd cyfarfod heddychlun yn Spa Fields, lle bu tua 10,000 o bobl yn bresennol. Fodd bynnag, ar ôl cael ei ddewis, ynghyd â'i gyd-ddiwygiwr **Syr Francis Burdett**, i gyflwyno'r ddeiseb i'r Rhaglyw Dywysog, yn gyntaf gwrthododd Burdett â gwneud hynny ac yna ataliwyd Hunt ddwywaith rhag gweld y Rhaglyw Dywysog.

Arweiniodd methiant y cyfarfod at gynnull ail gyfarfod i'w gynnal ar 2 Rhagfyr, gyda'r nod o brotestio yn erbyn y ffordd y cafodd Hunt ei drin. Defnyddiwyd y cyfarfod, lle bu 20,000 yn bresennol, gan Radicaliaid eithafol, a elwid yn **Sbensiaid**, fel modd i hyrwyddo eu nodau chwyldroadol. Am fod Hunt yn hwyr yn cyrraedd aeth rhai o'r protestwyr, **Dr James Watson**, ei fab Arthur a'r Sbeniad adnabyddus **Arthur Thistlewood**, ati i arwain grŵp tuag at Dŵr Llundain, a dwyn gynna'u o siop ynnau ar eu ffordd a hefyd lladd rhywun a oedd yn cerdded heibio. Fodd bynnag, wrth ymyl y Gyfnewidfa Frenhinol cyfarfu'r grŵp â'r Henadur a saith cwnstabl a chafodd tri eu harestio gyda'r gweddill yn gwasgaru.


Roedd yr hyn a ddigwyddodd ar ôl y terfysgoedd yn arwyddocaol mewn sawl ffordd. Dienyddiwyd cyn-longwr, **John Cashman**, er y tebyg yw mai dim ond cymryd rhan yn yr ymosodiad i ddwyn o'r siop ynnau a wnaeth, yn hytrach na bod yn Radical eithafol. Fodd bynnag, chwalodd y treial yn erbyn y prif gyflawnwyr oherwydd y defnydd amlwg o ysbïwyr y llywodraeth, neu **gudd-gynhyrfwyr**, i ddechrau helbul. Yn yr achos hwn, taflwyd amheuaeth ar gymeriad a dibynadwyedd John Castle, y datgelwyd ei fod yn ysbïwr ac felly achubwyd Thistlewood a Watson a'i fab rhag cael eu crogi. Ond er gwaethaf hyn, roedd lefel y trais yn ddigon i godi braw ar y llywodraeth o dan ei Phrif Weinidog, yr **Arglwydd Liverpool** a'r Ysgrifennydd Cartref yr **Arglwydd Sidmouth** a ofnai chwyldro.



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

Cafodd ofn y Llywodraeth y byddai chwyldro effaith fawr ar ei hymateb i brotestio. Ym **mis Mawrth 1817**, trefnodd tri Radical dosbarth gweithiol ym Manceinion, Samuel Drummond, John Bagguley a William Benbow, orymdaith brotest o **Fanceinion i Lundain** i dynnu sylw at sefyllfa **nyddwyr a gwehyddion** di-waith yn Swydd Gaerhirfryn. Y bwriad oedd bod y dynion yn mynd â deiseb i'r **Rhaglyw Dywysog** a'r disgwyl oedd y byddai o leiaf 20,000 yn cymryd rhan. Gwnaeth rhai Radicaliaid ym Manceinion, er enghraifft **Samuel Bamford**, gynghori na ddylid gorymdeithio, gan fynnu na fyddai'r awdurdodau byth yn caniatáu i hynny ddigwydd. Serch hynny, ar 10 Mawrth 1817, cyfarfu tua 5,000 o orymdeithwyr yn St Peter's Field, Manceinion i ddechrau ar eu protest heddychlon.

[Melinau cotwm Manceinion tua 1820]



Parth Cyhoeddus - <https://socialhistory.org/en/today/03-10/march-blanketeers?language=en>

Penderfynodd y trefnwyr y dylai pob dyn gario blanced, nid yn unig i'w cadw'n gynnes ond hefyd i ddangos i bobl ar y ffordd mai nyddwyr a gwehyddion oeddent. O ganlyniad roedd y brotest yn cael ei galw'n **Orymdaith y Blancedwyr**. Fodd bynnag, roedd yr awdurdodau yn benderfynol o atal hyd yn oed brotest heddychlon ac aethpwyd ati i atal yr orymdaith.

Y bwriad oedd bod y dynion yn gorymdeithio mewn grwpiau o ddeg, a thrwy hynny osgoi cyhuddiadau o ymgynnull anghyfreithlon. Fodd bynnag, darllenwyd y **Ddeddf Terfysg** ac anfonwyd milwyr er mwyn cael y gorymdeithwyr i ymwasgaru. Arestwyd Drummond a Bagguley, ond cychwynnodd sawl un o'r gorymdeithwyr, ond cawsant eu dilyn gan y milwyr a ymosododd arnynt. Cafodd llawer eu clwyfo â chleddyf a chafodd ugeiniau eu harestio o dan ddeddfau crwydraeth. Roedd diwedd glo anffodus gorymdaith y Blancedwyr yn dangos na fyddai'r Llywodraeth yn goddef hyd yn oed protest heddychlon yn ystod y cyfnod hwn, gyda mesurau eraill yn cael eu cyflwyno i wahardd protestiadau Radicalaidd.

Ffurio undebau gwleidyddol; terfysgoedd y Mesur Diwygio, 1831

Yn ystod y 1820au **adferodd** Prydain yn **economaidd** ac o ganlyniad i hynny gwanhaodd dylanwad Radicaliaeth wrth i bobl ddod o hyd i waith a byw o dan amgylchiadau ychydig yn well. Cafodd cyfyngiadau'r Chwe Deddf (i'w trafod yn ddiweddarach) eu codi'n raddol a'u diddymu a dechreuodd y Llywodraeth roi sylw i faterion pwysicach eraill. Fodd bynnag, erbyn **dechrau'r 1830au** roedd y wlad unwaith eto yng nghanol **protestiadau eang**. Roedd y Chwigiadaid wedi parhau i ddadlau o blaid diwygiadau yn ystod y 1820au ond cafodd eu hymdrechion eu gwrthwynebu'n chwyn gan y Llywodraeth Doriaidd. Fodd bynnag, arweiniodd twf yn nifer y diwydianwyr a'u cyfoeth yn yr ardaloedd gweithgynhyrchu, nad oeddent yn cael eu cynrychioli



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

yn y Senedd, at fwy o bwysau dros ddiwygio.

Un ffordd y daeth y pwysau hyn i'r amlwg oedd yr **undebau gwleidyddol** a gafodd eu ffurfio. Yn 1828 sefydlodd Thomas Attwood **Undeb Gwleidyddol Birmingham** gyda'r nod o ymgychu dros ddiwygiadau drwy ddulliau heddychlon fel trefnu cyfarfodydd cyhoeddus a deisebau i'w cyflwyno i'r Senedd. Erbyn 1832 roedd 25,000 o bobl wedi ymaelodi a bu'n sbardun i ffurfio undebau gwleidyddol eraill mewn trefi a dinasoedd ar hyd a lled y wlad. Tyfodd dylanwad yr undebau gwleidyddol hyn i'r fath raddau nes bod yn rhaid i'r Llywodraeth gymryd sylw bellach.

Er bod yr undebau hyn am weld y Senedd yn cael ei diwygio, nid oeddent yn unedig. Roedd gweithgynhyrchwyr dosbarth canol yn awyddus i gael eu cynrychioli gan bobl a oedd yn debyg iddynt hwy eu hunain, sef nod yr **Undeb Gwleidyddol Cenedlaethol** a sefydlwyd gan **Francis Place**. Fodd bynnag, roedd pobl fel **William Lovett** a **Henry Hetherington**, a sefydlodd Undeb Cenedlaethol y Dosbarthiadau Gweithiol, o blaid polisi mwy radicalaidd fel cynrychiolaeth i'r dosbarth gweithiol. Sut bynnag, erbyn 1830 roedd achos diwygio yn cael ei gefnogi gan sawl papur newydd. *The Times* oedd un o'r papurau newydd cenedlaethol a oedd o blaid diwygio ac yn yr ardaloedd gweithgynhyrchu roedd papurau newydd lleol megis y *Leeds Mercury* yn ei gefnogi'n groch.

Fodd bynnag, unwaith eto, ffactorau economaidd oedd yn gyfrifol am gynyddu'r pwysau dros ddiwygio. Arweiniodd cynaeafau gwael o 1828-30 a dirwasgiad economaidd o 1829-31, at brisiau bwyd uwch a mwy o ddiweithdra. Arweiniodd ymdrechion parhaus Tŷ'r Arglwyddi i atal hynt y **Mesur Diwygio**, a rwystrowyd gan y Tŷ Uchaf ym mis Hydref 1831, a thrafodir hyn ymhellach yn ddiweddarach, at **aflonyddwch a therfysgoedd** ar hyd a lled y wlad.

Digwyddodd y terfysg mwyaf arwyddocaol o'r rhain ar 31 Hydref pan gafodd y terfysgwyr reolaeth dros **Fryste** am ddeuddydd ac ymosodwyd ar adeiladau cyhoeddus a'u rhoi ar dân. Lladdwyd 12 o bobl, anafwyd dros gant a dienyddiwyd pedwar yn ddiweddarach am eu rhan yn y terfysg. Nid oedd terfysg Bryste yn unigryw oherwydd yn gynharach yn y mis cafwyd terfysgoedd mewn lleoedd fel Llundain, Nottingham, Derby, Caerfaddon a Newark. Yn Nottingham llosgwyd y castell yn ulw ac yn Llundain ymosodwyd ar y tai a oedd yn eiddo i'r **Dug Wellington** a'r esgobion a oedd wedi pleidleisio yn erbyn y Bil Diwygio.

Roedd Terfysgoedd y Mesur Diwygio yn benllanw dwy flynedd ar hugain o gythrwfl. Fel y byddwn yn ei ystyried nawr, byddai ymateb y Llywodraeth a'r awdurdodau

[Trechu terfysgoedd Bryste, Hydref 1831]



Parth Cyhoeddus - <https://goo.gl/lsUSNt>



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

i'r gwahanol brotestiadau yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei lywio gan ofn cyffredinol y byddai chwyldro a'r awydd i drechu aflonyddwch poblogaidd.

Ymateb y Llywodraeth

Sut gwnaeth y llywodraeth ymateb i brotestiadau poblogaidd ar yr adeg hon?

Cudd-gynhyrfwyr (agent provocateurs); atal Habeas Corpus, 1817

Roedd y **Chwyldro Ffrengig** wedi bwrw cysgod enfawr dros Ewrop yn ystod y cyfnod hwn, yn enwedig yn y ffordd y dylanwadodd ar syniadau breniniaethau a llywodraethau a gredai y gallai rhywbeth tebyg ddigwydd yn eu gwledydd hwythau. Fel y cyfryw, roedd y dosbarthiadau llywodraethol ym Mhrydain wedi cymryd camau i geisio atal lledaeniad syniadau chwyldroadol yn union ar ôl yr hyn a ddigwyddodd yn Ffrainc. Yn ystod degawd cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd aflonyddwch ar gynnydd, ond roedd y wlad yn gofidio am Ryfeloedd Napoleon. Ond pan ddaethant i ben yn 1815 arweiniodd hynny at fwy o weithgarwch Radicalaidd ac un o fesurau llywodraeth ofnus i wrthsefyll y mudiad oedd defnyddio **cudd-gynhyrfwyr**.

Ysbiwyr wedi'u cyflogi gan y llywodraeth oedd cudd-gynhyrfwyr a'u gwaith oedd dod yn aelodau o grwpiau Radicalaidd yn llechwraidd er mwyn cael tystiolaeth amdanynt. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn cynhyrfu'r grwpiau hyn ac yn eu hannog i gymryd camau gweithredu uniongyrchol, a hynny ar sail addewidion cwbl anwir, gan mwyaf, bod y wlad yn barod i wrthryfela. Roedd dynion diobaith yn aml yn barod i gredu'r ysbiwyr hyn, a oedd yn tueddu nid yn unig i fod yn gymeriadau diegwyddor, ond i orliwio gryn dipyn er mwyn dangos eu gwerth i'r llywodraeth.

Un o ysbiwyr enwocaf y cyfnod oedd **William Oliver** a wnaeth lawer i ysgogi **Gwrthryfel Pentrich, 1817** a arweiniodd at ddiwyddio Jeremiah Brandreth, Isaac Ludlum a William Turner. Fodd bynnag, roedd defnydd y llywodraeth o ysbiwyr yn hysbys iawn a chafodd ei feirniadu'n fawr. Roedd **Samuel Bamford**, gwehydd, bardd a Radical, a luniodd gofnod hanesyddol gwerthfawr o'r cyfnod hwn, yn cofio cyfarfod hwyr y nos â chyd-gynlluniwr a oedd wedi dod i adnabod Oliver. Cofnododd yn ddiweddarach:

'Y gwir amdani oedd bod y person truenus hwn...yn ystod un o'i ymweliadau â Llundain, wedi dod i adnabod Oliver, yr ysbiwr, a bod y berthynas hon...wedi rhoi hwb newydd i gyfarfodydd cyfrin a chynllwynio mewn gwahanol rannau o swydd Gaerhirfryn, swydd Gaerefrog a swydd Derby gan arwain at drychineb Brandreth, Ludlum a Turner, yn Derby.'

Aeth Bamford yn ei flaen i nodi:

'O'r wythnos honno yn union dechreuodd cyfarfodydd preifat, at ddibenion tra throeddol, gael eu cynnal unwaith eto. Daeth asiantiaid o Fanceinion, gan deithio drwy'r wlad yn lledaenu eu gwenwyn ble bynnag y gallent.' (Passages in the Life of a Radical tt.70-71).



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

Cynyddodd ofnau'r Llywodraeth yn ystod y cyfnod hwn ym mis Ionawr 1817 ar ôl i rywbeth gael ei daflu i mewn drwy ffenestr wydr coets y Rhaglyw Dywysog ar ei ffordd i seremoni agor y Senedd. Ei hymateb oedd pasio'r **Deddfau Gagio**, sef y **Ddeddf Brad** a ddeddfodd ei fod yn uchel frad llofruddio'r Rhaglyw Dywysog a'r **Ddeddf Cyfarfodydd Bradwrus**, a'i gwnaeth yn anghyfreithlon cynnal cyfarfodydd o fwy na **50 o bobl** er mwyn gwyntyllu cŵyn. Cafodd amodau llym eu cymhwyso at unrhyw gyfarfodydd a ganiatawyd. Y nod, yn amlwg, oedd atal pobl rhag ymgynnull i brotestio o bosibl a cheisiodd y gyfraith hefyd roi terfyn ar unrhyw sefydliad lle roedd angen tyngu llw nad oedd wedi'i awdurdodi o dan y gyfraith.

[Jeremiah Brandreth, a ddiennyddiwyd am ei ran yng Ngwrthryfel Pentrich, digwyddiad a achoswyd yn rhannol gan ddefnydd y llywodraeth o gudd-gynhyrfwyr]



Parth Cyhoeddus - <https://goo.gl/LYyKlh>

Ymatebodd y llywodraeth hefyd i'r hyn a ystyriodd yn gyfres beryglus o ddigwyddiadau, drwy **atal y Ddeddf Habeas Corpus** dros dro ar ddiwedd mis Chwefror 1817. Roedd y Ddeddf yn y bôn yn cadw hawl pob un yn y carchar i gael ei ddwyn gerbron cyfraith barn i sefyll prawf. Roedd gwreiddiau Habeas Corpus neu 'cewch y corff' yn mynd yn ôl i'r canoloesoedd ac roedd yn cael ei ystyried yn un o sylfeini hanfodol hawliau pobl. Ond roedd gwahanol lywodraethau wedi'i atal dros dro yn ystod cyfnodau o fygythiad canfyddedig, er enghraifft yn 1794 a 1798. Roedd y penderfyniad i'w atal yn 1817 yn amlygu ofn y Llywodraeth ynglŷn â phrotestiadau **Radicalaidd** a **chwyldro** o bosibl yn ystod y cyfnod hwn, a adlewyrchwyd yn honiad yr Arglwydd Sidmouth yn y Senedd bod 'cynllwyn bradwrus...er mwyn dymchwel...y llywodraeth sefydledig.'

Cydnabuwyd ar y pryd pa mor bwysig oedd y penderfyniad i atal hyn i'r mudiad Radicalaidd. Nododd **Samuel Bamford** yn ddiweddarach:

"Bu cwmwl o ddigalondid a drwgdybiaeth dros y wlad gyfan. Roedd atal y ddeddf habeas corpus yn gam...o'r fath a oedd yn achosi pryder

ymhlith y rhai mwyaf difater ohonom...Ymddangosai fel petai haul rhyddid wedi machlud, a phetai ehangder tywyll gorthrwm wedi ein hamgáu o'r diwedd.' (Passages in the Life of a Radical tt.43-44).

Roedd y camau gorthrymus a gymerwyd gan y Llywodraeth yn nodwedd allweddol ar y cyfnod ac yn adlewyrchu ei phryder ynglŷn â gweithgarwch Radicalaidd, yn ogystal â bod yn ymateb afresymol i orliwio cyfrin-gynhyrfwyr. Er i Ddeddf Atal Habeas Corpus gael ei **diddymu yn 1818** ac er i hawliau gael eu hadfer, arweiniodd y dirywiad yn yr economi yn 1818-19 at gyfres newydd



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848


o brotestiadau a fyddai'n arwain yn y pen draw at **Gyflafan Peterloo, 1819**.

Cyflafan Peterloo, 1819

Cafodd Radicaliaeth hwb yn 1819 pan arweiniodd dirwasgiad arall mewn masnach at dorri cyflogau a mwy o ddiweithdra, gan achosi hyd yn oed mwy o drallod yn yr ardaloedd gweithgynhyrchu. Cafodd cyfarfodydd mawr eu trefnu i brotestio yn erbyn amodau byw a mynnu bod y **Senedd yn cael ei diwygio**. Bwriadodd Radicaliaid gynnal pedair rali enfawr yn Birmingham, Leeds, Llundain a Manceinion ym mis Gorffennaf a mis Awst 1819, gyda **Henry Hunt** yn rhoi'r brif araith yn y rali ym Manceinion.

Fodd bynnag, fel y gwelwyd, roedd agwedd yr awdurdodau, yn enwedig ynadon Manceinion, yn llawn ofn a drwgdybiaeth tuag at brotestiadau Radicalaidd. O ganlyniad, trefnwyd bod nifer fawr o filwyr yn bresennol yn y cyfarfod ym Manceinion y bwriadwyd ei gynnal ar **16 Awst**. Roedd hyn yn cynnwys **lwmyr Manceinion a Salford**, a oedd yn cynnwys milwyr gwirfoddol fel tafarnwyr a siopwyr, nad oeddent yn cydymdeimlo â'r Radicaliaid.

[Llun o Henry Hunt, a beintwyd tua 1810]



Portead o Henry Hunt gan Adam Buck (c. 1810), © National Portrait Gallery, Llundain

Ar fore 16 Awst, aeth miloedd o bobl i **Gae St Peter's**, torf o ddynion, merched a phlant yn cario baneri ac arnynt sloganau fel 'No Corn Laws', 'Universal Suffrage' a 'Vote by Ballot'. Roedd yr ynadon wedi cyfarfod am 11.00am mewn tŷ a oedd yn edrych dros yr ardal ac wedi mynd yn fwyfwy pryderus ynglŷn â thwf cynyddol y dorf a'i disgyblaeth ymddangosiadol, a oedd, yn eu tyb nhw, yn ymdebygu i sefydliad milwrol. Erbyn tua 1.00pm roedd torf o oddeutu **60-80,000**, mwy o bosibl ac am 1.20pm cyrhaeddodd y prif siaradwyr, gan gynnwys Hunt, ynghyd â sawl gohebydd papur newydd. Tua'r adeg hon penderfynodd yr ynadon, o dan arweiniad y Cadeirydd **William Hulton**, fod 'y dref mewn perygl mawr' a phenderfynwyd arestio Hunt.

Rhoddwyd y warant arestio i'r Dirprwy Gwnstabl **Joseph Nadin** a aeth i mewn i'r dorf yng nghwmni cwnstabiliaid gwirfoddol a'r **lwmyr**. Fodd bynnag, er iddynt gyrraedd Hunt a chyflwyno'r warant arestio, cafodd yr lwmyr eu hunain yn sownd yng nghanol y dorf a gwnaethant ddechrau defnyddio eu cleddyfau i greu llwybr iddynt hwy eu hunain, gan achosi panig yn y dorf. I'r ynadon a oedd yn gwylio, ymddangosai fel petai'r dorf yn ymosod ar yr lwmyr ac o ganlyniad gorchmynnodd Hulton i'r **milwyr rheolaidd** a oedd yn aros ar gyrion Cae St Peter's wneud i'r dorf ymwasgaru.

O dan arweiniad Cyrnol L'Estrange gwnaeth y 15^{fed} Hwsaniaid gyrch ar Gae St Peter's ac o fewn deg munud roedd yr ardal yn wag. **Lladdwyd 11 o bobl** ac anafwyd rhai cannoedd o ganlyniad i'r cyrch.



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

Ymateb syth y Radicaliaid a'r cyhoedd yn gyffredinol i'r hyn a ddigwyddodd yng Nghae St Peter's oedd ffeidd-dod a dicter. Yn fuan dechreuodd pobl gyfeirio at y digwyddiad fel **Cyflafan Peterloo**, sef cyfeiriad gwawdlyd at **Frwydr Waterloo**; ond y tro hwn roedd y 'milwyr dewr' wedi ymladd yn erbyn merched a phlant.

[Portread o'r digwyddiadau yng Nghae St Peter's a gyhoeddwyd gan y Radical, Richard Carlile]



Gan Richard Carlile (1790-1843) - Gwasanaethau Llyfrgell
Manceinion, Parth Cyhoeddus - <https://goo.gl/9ys2cJ>

Fodd bynnag, anfonodd yr Ysgrifennydd Cartref **yr Arglwydd Sidmouth** a'r **Rhaglyw Dywysog** ill dau lythyr at ynadon Manceinion yn eu llongyfarch am weithredu felly, gan nodi boddhad y Rhaglyw Dywysog gyda'u 'camau di-oed, penderfynol ac effeithlon i gadw'r heddwch cyhoeddus'. Yn wir, caledu a wnaeth agwedd y llywodraeth ac roedd awydd i **drechu'r mudiad Radicalaidd**, a feiodd am yr achosion cynyddol o aflonyddwch yn y wlad.

Y Chwe Deddf; Cynllwyn Cato Street

Nodweddwyd yr ymateb gan y gyfres o gyfreithiau a basiwyd ar frys, a oedd yn cael eu galw'n ddiweddarach yn y **Chwe Deddf**, neu'r 'Deddfau Gagio', a gafodd eu cyflwyno'n gyflym drwy'r Senedd gan y Llywodraeth Doriaidd o dan yr Arglwydd Liverpool. Nod y mesurau oedd rhoi terfyn ar gyfarfodydd a phapurau newydd Radicalaidd yn ogystal â lleihau'r posibilrwydd o wrthryfel. Y deddfau a basiwyd oedd: -

- **Y Ddeddf Atal Hyfforddiant** – mesur a wnaeth unrhyw un a aeth i gynulliad at ddiben hyfforddiant neu ymarferion milwrol yn agored i gael ei arestio a'i drawsgludo i wlad bell am saith mlynedd.
- **Y Ddeddf Atafaelu Arfau** – rhoddodd hon bwerau i ynadon lleol chwilio unrhyw eiddo neu berson am arfau.
- **Y Ddeddf Atal Cyfarfodydd Bradwrus** – roedd hon yn gwahardd cynnal cyfarfodydd cyhoeddus o fwy na hanner cant o bobl heb ganiatâd ynad.
- **Y Ddeddf Camymddygiadau** – mesur a geisiodd gyflymu treialon.
- **Y Ddeddf Enllibion Cabledus a Bradwrus** – rhoddodd hon gosbau llymach, gan gynnwys gwahardd cyhoeddiadau a feirniadau'r Llywodraeth.
- **Y Ddeddf Papurau Newydd a Stamp** – gosododd hon dreth stamp ar rai papurau newydd Radicalaidd fel y *Political Register*, gan eu gwneud yn fwy drud a thrwy hynny leihau eu cylchrediad.

Er nad oedd y Chwe Deddf mor llym â rhai deddfau mewn gwledydd Ewropeaidd eraill, buont



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

yn fodd i gyfyngu ar weithgareddau Radicalaidd. Mewn sawl ffordd, gorymateb oeddent, wedi'u hysgogi gan ofnau'r Llywodraeth ynglŷn â phrotestiadau wedi'u trefnu ac er bod eu heffaith yn gymharol fach mewn gwirionedd, fe'u hystyriwyd yn symbol o natur ormesol y Llywodraeth Doriaidd ar y pryd.

Roedd cyflafan 'Peterloo' wedi cythruddo'r Radicaliaid Sbensaidd eithafol megis Arthur Thistlewood, a gredai mewn chwyldro treisgar. Ar ôl Peterloo cynyddodd ei ddicter tuag at y Llywodraeth a gyda chyd-gynllwynwyr o'r un anian, roedd yn benderfynol o weithredu'n bellach, mewn digwyddiad o'r enw **Cynllwyn Cato Street**.

Ym mis Chwefror 1820, nododd y papur newydd *New Times* fod sawl aelod o'r Llywodraeth yn mynd i 'ginio crand i'r Cabinet' yn Sgwâr Grosvenor yn Llundain. Penderfynodd Thistlewood a'i gyd-gynllwynwyr, sef William Davidson, Richard Tidd, James Ings a John Brunt yn bennaf, y byddent yn mynd i mewn i'r adeilad a **llofruddio** holl weinidogion y Llywodraeth. Yna, byddai pennau'r gweinidogion mwyaf blaenllaw yn cael eu gosod ar bolion a'u harddangos o amgylch slymiau Llundain, gan arwain at **chwyldro** arfog a fyddai'n dymchwel y Llywodraeth.

Fodd bynnag, heb yn wybod i'r cynllwynwyr, roedd ysbiwr, **George Edwards**, wedi ymuno â nhw. Roedd yr awdurdodau yn gwybod y cyfan am y cynllun a gwnaeth Edwards hyd yn oed ddarparu'r llawfomiau y byddent yn eu defnyddio. Ar ôl rhentu adeilad yn Cato Street, cyfarfu'r gang cyn y weithred arfaethedig, ond roedd yr awdurdodau'n barod ac ymosodwyd ar eu cuddfan mewn ymgais i'w harestio. Gwrthododd Thistlewood a rhai o'r gang ildio ac yn yr ymgiprys trywanodd un o'r swyddogion, Richard Smithers, a'i ladd. Er iddo ddianc, cafodd Thistlewood ei arestio'n fuan wedyn ar sail gwybodaeth Edwards ac ynghyd â'r pedwar arall safodd ei brawf.

[‘A Free Born Englishman’ – cartŵn yn dyddio'n wreiddiol o oddeutu 1795, ond a gafodd ei addasu gan y cartwnydd Radicalaidd George Cruikshank i bortreadu effeithiau'r Chwe Deddf (1819)]



© Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Brydeinig



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

ond cynigiwyd pardwn i rai o'r cynllwynwyr am roi tystiolaeth yn erbyn y pum prif gynllwyniwr. Ar ôl cael eu collfarnu, y ddedfryd oedd y caent eu **crogi** ac y câi eu **pennau eu torri i ffwrdd**, a digwyddodd hynny yng Ngharchar Newgate ar 1 Mai 1820 o flaen torf o sawl mil o wylwyr, yr oedd llawer ohonynt wedi talu trigolion lleol am y fraint o wyllo'r cyfan o'u tai.

Cynllwyn Cato Street oedd yr ymgais fawr olaf i wrthryfela yn ystod y cyfnod hwn, ond roedd wedi dangos yn glir y graddau yr oedd **cudd-gynhyrfwyr** yn cael eu defnyddio i achosi aflonyddwch. Roedd y cynllwynwyr yn beirniadu George Edwards yn chwyrn gan ddweud mai ef oedd y rheswm y gwnaethant gymryd rhan ac ar ôl y treial nodwyd iddo ddiflannu, i New Brunswick yng Nghanada mae'n debyg, ac felly osgoi unrhyw beth a allai ddeillio o'i weithredoedd amheus.

[Portread George Cruikshank o arestio Cynllwynwyr Cato Street, 1820]



Parth Cyhoeddus - <https://goo.gl/i98Daf>

[‘A May Day Garland for 1820’: mae aelodau o'r Llywodraeth yn dawnsio o amgylch pennau Cynllwynwyr Cato Street, tra bod yr ysbïwr Edwards yn chwarae ffidil yn llawen yn y cefndir]



A May Day Garland for 1820, © Oriel Genedlaethol Portreadau, Llundain



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

Deddf Ddiwygio 1832

Yn ystod y 1820au **adferodd** Prydain yn **economaidd** ac o ganlyniad i hynny gwanhaodd dylanwad Radicaliaeth wrth i bobl ddod o hyd i waith a byw o dan amgylchiadau ychydig yn well. Cafodd y Chwe Deddf eu diddymu'n raddol a chafodd materion eraill sylw'r Llywodraeth. Fodd bynnag, erbyn **dechrau'r 1830au** roedd y wlad unwaith eto yng nghanol **protestiadau eang**. Fel y trafodwyd yn gynharach, **Terfysgoedd y Mesur Diwygio** oedd y math mwyaf difrifol o brotestiadau treisgar a welwyd yn y wlad yn ystod y cyfnod hwn. Roedd y terfysgoedd wedi digwydd o ganlyniad i ymgais i atal hynt y Mesur Diwygio, a oedd â'r nod o estyn yr etholfraint a chael gwared ar fwrdeistrefi pwdr. Fodd bynnag, cymaint oedd y pwysau i ddiwygio fel na allai'r Llywodraeth osgoi ystyried caniatáu estyn yr etholfraint mewn ymateb.

Ym mis Tachwedd 1830, collodd y Llywodraeth Doriaidd, o dan arweiniad y **Dug Wellington**, gwrthwynebydd mawr diwygio, rym. Cynigiodd y Chwigiaid, o dan arweiniad yr **Iarl Grey**, ffurfio llywodraeth newydd ar yr amod bod y **Brenin, William IV**, yn cytuno i Fesur Diwygio. Roedd hwn yn ddigwyddiad arwyddocaol iawn ac felly roedd cefnogwyr a gwrthwynebwyr diwygio'r senedd yn barod am y frwydr.

Fodd bynnag, nid oedd y **Mesur Diwygio** a gyflwynwyd ym **mis Mawrth 1831** mor radical ag yr oedd rhai wedi'i obeithio, ond serch hynny roedd llawer o Doriaid yn arswydo. Y bwriad oedd y byddai'r bleidlais ym mhob etholaeth, yn fwrdeistrefi neu'n siroedd, yn unffurf. Mewn bwrdeistrefi, roedd deiliadaeth tŷ neu siop gwerth £10 y flwyddyn yn golygu nad oedd y mwyafrif llethol o'r dosbarth gweithiol yn gymwys i bleidleisio o hyd. Yn y siroedd, roedd yr etholfraint eisoes wedi'i rhoi i'r rhai a oedd yn berchen ar dir drwy rydd-ddaliad gwerth 40 swllt. At y grŵp hwn ychwanegwyd copiddeiliaid, sef ffurf hynafol ar brydles, a oedd yn dal tir gwerth o leiaf £10; lesddeiliaid yr oedd eu tir yn werth £50 a thenantiaid a dalodd £50 mewn rhent. Y canlyniad amlwg oedd mai **bod yn berchen ar eiddo sylweddol** oedd y ffactor hollbwysig o hyd.

Yn sgil cyflwyno'r Mesur **collodd y Llywodraeth y bleidlais** a arweiniodd at ymddiswyddo. Yn yr etholiad dilynol dychwelodd y Chwigiaid gyda mwyafrif o 140 o ASau, gan ddangos mai mater diwygio'r Senedd oedd yn drech na dim byd arall. Ym mis Hydref 1831 cyflwynwyd ail Fesur Diwygio, ond collwyd y bleidlais yn Nhŷ'r Arglwyddi, a fu'n sbardun i Derfysgoedd y Mesur Diwygio a grybwyllwyd yn flaenorol.

Cyflwynwyd y Mesur Diwygio am y **trydydd tro** yng ngwanwyn 1832 ac unwaith eto cafodd ei basio gan Dŷ'r Cyffredin. Y tro hwn ceisiodd Tŷ'r Arglwyddi newid y Mesur, ac felly gofynnodd y Chwigiaid i'r Brenin greu digon o **arglwyddi newydd** i orfodi pasio'r Mesur. Gwrthododd y Brenin a gofynnodd i'r Dug Wellington ffurfio llywodraeth newydd, na allai ei wneud. Gwnaeth y diwygiwr **Francis Place** annog gweithgynhyrchwyr a buddsoddwyr cefnog i dynnu eu harian o fanciau, a thrwy hynny haneru'r gronfa genedlaethol o aur mewn ychydig ddiwrnodau. Gwnaeth hyn a'r pwysau aruthrol ledled y wlad **orfodi'r Brenin i gytuno i ofynion yr Iarl Grey** a rhoddodd yr Arglwyddi y gorau i'w gwrthwynebiad yn wyneb y bygythiad i greu arglwyddi newydd. **Felly daeth y Ddeddf Ddiwygio yn gyfraith gwlad ar 7 Mehefin 1832.**



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

[Paentiad yn cofio am basio'r Ddeddf Ddiwygio. Yn y blaen mae'r prif ffigyrau yn y frwydr dros ac yn erbyn diwygio']



Gan Syr George Hayter (1792-1871), Parth Cyhoeddus, <https://goo.gl/iAZrU>

Roedd pasio'r Ddeddf Ddiwygio yn gonsesiwn mawr gan y Llywodraeth yn wyneb protestiadau poblogaidd – o leiaf yn ôl safonau'r oes honno. Cyn y Ddeddf roedd tua un o bob deg dyn yng Nghymru a Lloegr yn gallu pleidleisio, ar ôl y Ddeddf, roedd gan tua **un o bob pump** y bleidlais. Cafodd llawer o **fwrdeistrefi pwdr** eu diddymu a chafodd seddi eu hailddosbarthu. Roedd yr ardaloedd gweithgynhyrchu yn cael eu cynrychioli bellach a hefyd y dosbarthiadau canol ffyniannus. Fodd bynnag, roedd dynion dosbarth gweithiol ac yn wir lawer ymhlith y dosbarthiadau canol yn teimlo'n **ddig** am natur gyfyngedig y diwygiadau. Byddai hyn yn ei dro yn arwain at **fudiad y Siartwyr**, a gaiff ei drafod yn fanylach yn ddiweddarach.

Protest ddiwydiannol yng Nghymru

Pam gwnaeth Gwrthryfel Merthyr ddechrau yn 1831?

Achosion tymor hir: amodau gweithio ac amodau byw, y system dryc, rôl y diwydianwyr

Cafodd y Chwyldro Diwydiannol effaith anfesuradwy ar wead cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol Cymru. Roedd y datblygiadau'n digwydd mor gyflym fel bod ardaloedd fel **Merthyr Tudful** yn tyfu o fod yn bentrefi gwledig, bach i fod yn drefi diwydiannol mewn cyfnod cymharol fyr. Roedd argaeledd glo a mwyn haearn wedi bod yn sbardun i ddiwydiannu De Cymru, gyda'r



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848


boblogaeth ym Merthyr yn cynyddu'n gyflymach nag unrhyw drefi eraill yng Nghymru. Erbyn 1831, roedd dros 30,000 o bobl yn byw yno gyda'r rhan fwyaf o bobl yn dod i mewn i'r ardal i weithio yn y **gweithfeydd haearn**.

Roedd Merthyr wedi dod yn ganolfan ddelfrydol i'r diwydiant haearn oherwydd presenoldeb y deunyddiau crai angenrheidiol ac erbyn diwedd y 18^{fed} ganrif roedd pedwar gwaith haearn mawr ym Merthyr: -

- **Penydarren**, o dan berchenogaeth teulu'r Homfrays
- **Plymouth**, o dan berchenogaeth Anthony Bacon ac yna Richard Hill
- **Dowlais**, o dan berchenogaeth Josiah John Guest
- **Cyfarthfa**, o dan berchenogaeth teulu'r Crawshays.

Cyfarthfa a dyfodd fwyaf, gan gynhyrchu canran fawr o haearn Prydain ac yn wir haearn y byd. Daeth **William Crawshay** yn un o'r dynion mwyaf cyfoethog a welwyd erioed ym Mhrydain – yn ôl gwerthoedd presennol byddai ei gyfoeth wedi bod yn werth mwy na £5 biliwn. Roedd angen yr haearn ar gyfer y Chwyldro Diwydiannol ac wrth i'r diwydiant ehangu roedd galw cynyddol am lo ac o ganlyniad felly cafodd llawer o loddfeydd eu datblygu gan y meistyr haearn.

[Paentiad o Waith Haearn Cyfarthfa yn y nos tua 1825]



Parth Cyhoeddus - <https://goo.gl/FFBVo0>



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

Roedd cyfoeth y meistri haearn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â thlodi eu gweithwyr. Roedd yr **amodau gweithio a'r amodau byw** yn y dref yn aml yn enbyd. Roedd y gwaith yn tueddu i gynnwys sifftiau 12-13 awr, 7 diwrnod yr wythnos gydag ychydig iawn o wyliau. Er bod llawer o'r swyddi yn y gweithfeydd haearn yn rhai crefftus, roedd llawer yn llawn peryglon fel 'tasgu haearn'. Roedd y cyflogau'n amrywio ond nid rhyw lawer o un gwaith haearn i'r llall.

Roedd amodau byw yr un mor anodd. Oherwydd y twf sydyn ym mhoblogaeth y dref codwyd llawer o dai rhad, fel arfer ar ran y meistri haearn. Am fod y tai hyn mor agos i'w gilydd, yn aml yn orlawn, heb fawr ddim glanweithdra na chyflenwad dŵr glân, roedd epidemigau o golera a theiffoid yn gyffredin ac roedd y gyfradd marwolaethau ymhlith babanod yn ymylu ar fod yn llofruddiol. Roedd ansawdd y deunyddiau adeiladu yn wael – roedd tai yn cael eu hadeiladu o **dywodfaen** nad oedd yn atal lleithder, gan arwain at y problemau anadlu anochel.

A gwaethygydd sefyllfa'r gweithwyr gan y defnydd o'r **system dryc** o hyd ym Merthyr. Roedd gweithwyr yn aml yn cael eu talu unwaith y mis, a oedd yn golygu bod llawer yn mynd i ddyled. Roedd eraill yn cael eu talu mewn talebau neu dryc, a dim ond yn y siopau a oedd yn cael eu rhedeg gan y meistri haearn y gallai gweithwyr eu cyfnewid. Roedd y siopau hyn yn cael eu galw'n **siopau 'tommy'** ac roedd eu prisiau yn tueddu i fod yn uwch na'r prisiau mewn siopau arferol. Roedd nwyddau yn aml o ansawdd is neu wedi'u difwyno ac o ganlyniad i'r ffactorau hyn roedd y system dryc yn achosi cryn anfodlonrwydd ymhlith y gweithwyr, gan gynrychioli rheolaeth y meistri haearn drostynt.

[Castell Cyfarthfa c.1840]



Castell Cyfarthfa (c. 1840), Llyfrgell Genedlaethol Cymru

O blith meistri haearn yr oes honno, y ddau mwyaf dylanwadol oedd **William Crawshay**, perchennog Cyfarthfa a **Josiah John Guest**, perchennog Dowlais. Fodd bynnag, gwnaethant gyfraniad at fywyd ym Merthyr. Adeiladodd y teulu Guest lyfrgell, capeli ac ysgolion i'w gweithwyr, ond er eu bod yn byw yng nghyffiniau Merthyr, roedd y cyfoeth a arddangoswyd ganddynt yn amlwg mewn gwrthgyferbyniad â'r gweithwyr. Yn 1825 adeiladodd Crawshay

gastell iddo'i hun yn edrych dros waith Cyfarthfa. Costiodd bron £30,000, a adlewyrchodd y ffordd roedd **Castell Cyfarthfa** yn dominyddu'r dref, adlewyrchiad arall o'u rheolaeth dros bron bob agwedd ar fywyd ym Merthyr.



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

Achosion tymor byr: dirwasgiad economaidd, Radicaliaeth ac undebaeth, galwadau am ddiwygio'r senedd, torri cyflogau.

Gellir ystyried y ffactorau uchod yn **achosion tymor hir** Gwrthryfel Merthyr. Byddai dechreuad **dirwasgiad economaidd**, ynghyd â ffactorau tymor byr eraill, yn arwain at amseriad y Gwrthryfel. Yn 1829 gostyngodd y galw am haearn, a fyddai'n arwain at ddirwasgiad am dair blynedd yn y diwydiant haearn. A hithau'n gyfnod o brisiau'n codi achoswyd mwy o galedi i bobl weithiol. O ganlyniad, aeth llawer o deuluoedd i ddyled. Os na allent dalu, roedd cofnodion yn cael eu cadw yn y **Llys Deisyfion**, a fyddai'n anfon beiliod i atafaelu nwyddau. Fel y cyfryw, roedd pobl Merthyr yn casáu'r llys hwn i ddyledwyr fel symbol o'u gormes ac achosodd anfodlonrwydd yn y dref.

Er bod yr adferiad economaidd cyffredinol yn y wlad yn ystod y 1820au wedi gwanhau apêl Radicaliaeth, nid oedd y galw creiddiol am **ddiwygio'r senedd** wedi pylu ac roedd y galwadau hyn yn gryf ym Merthyr. Nid oedd y dref yn cael ei chynrychioli yn y Senedd, tra bod bwrdeistrefi pwdr, sef etholaethau heb fawr ddim pleidleiswyr, yn dal i fodoli. Roedd gweithwyr Merthyr am gael y bleidlais fel y gallent gael eu cynrychioli gan rywun a fyddai'n helpu i wella eu bywydau. Fodd bynnag, roedd **Radicaliaeth** a'r galw am ddiwygio'r senedd hefyd yn bwysig i bobl fel **Crawshay a Guest**, a gefnogodd yr Ymgyrch dros Ddiwygio a oedd yn cael sylw mawr yng ngwleidyddiaeth Prydain ar y pryd.

Yn 1831 digwyddodd yr '**Argyfwng Diwygio**', fel yr oedd yn cael ei alw. Ym mis Mawrth 1831 cyflwynodd y Llywodraeth Chwigaid fesuwr gerbron y Senedd i ddiwygio Tŷ'r Cyffredin ac estyn yr etholfraint. Pan gafodd y mesur ei drechu ym mis Ebrill 1831, ymddiswyddodd y Llywodraeth i ymladd etholiad cyffredinol ar y mater. Ledled Prydain cynhaliwyd cyfarfodydd a gwrthdystiadau yn cefnogi diwygio'r senedd, gan gynnwys ym Merthyr.

Er bod diwygio'r senedd yn cael ei ystyried yn un ffordd o wella bywydau gweithwyr, un arall oedd drwy **undebaeth**. Rhoddodd y protestiadau dros ddiwygio'r senedd gyfle i undebau fel 'Undeb y Glowyr' geisio cael troedle ym Merthyr ac mae'n ymddangos bod y math hwn o weithredu yn ffactor a gyfrannodd at y Gwrthryfel. Er enghraifft, ychydig cyn y Gwrthryfel, ar 30 Mai 1831, cynhaliwyd cyfarfod mawr o'r gweithwyr haearn ar **Dwyn y Waun**, sef y cyfarfod gwleidyddol mwyaf o weithwyr a oedd wedi cael ei gynnal yng Nghymru hyd yn hyn. Roedd hyn yn adlewyrchu'r drefniadaeth gynyddol ymhlith y gweithwyr.

Roedd y cyfarfod wedi'i achosi'n rhannol gan effeithiau'r dirwasgiad, a oedd wedi arwain at gyhoeddiad gan William Crawshay ei fod yn **torri cyflogau** gweithwyr haearn Cyfarthfa. Ar 23 Mai daeth y toriadau mewn cyflogau i rym a thrannoeth gwaethygodd Crawshay y sefyllfa pan ddiswyddodd 84 o bwlderiaid. Drwy'r weithred hon taniwyd yr anfodlonrwydd yn y dref ac ynghyd â chwynion eraill, roedd yn cyfrif am amseriad y digwyddiad.

Digwyddiadau Gwrthryfel Merthyr

Ar ôl y cyfarfod bu gweithredu. Ymwelodd beiliod o'r Llys Deisyfion ag eiddo **Lewis Lewis**, a oedd yn cael ei adnabod yn Gymraeg fel **Lewsyn yr Heliwr**, er mwyn adennill dyledion.



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

Gwrthododd ildio eiddo, ac felly heriodd awdurdod y Llys, ond llwyddwyd i gytuno ar gyfaddawd pan aethpwyd â chist a oedd yn eiddo iddo. Drannoeth, a'r dicter yn cynyddu, gwnaeth torf yn Hirwaun lwyddo i gael cist Lewis yn ôl gan siopwr a oedd wedi cymryd meddiant ohoni. Bu hyn yn gymhellant i ymgais gyffredinol i ailfeddiannu nwyddau a atafaelwyd gan y Llys Deisyfion.

Ar 2 Mehefin gorymdeithiodd y dorf gynyddol i mewn i Ferthyr, gan fynd o dŷ i dŷ gan fynd â nwyddau a atafaelwyd gan y Llys Deisyfion. Aethant ati i chwilio drwy dŷ beili o'r enw Thomas Williams ac erbyn y prynhawn roedd gweithwyr haearn eraill wedi ymuno â'r dorf. Aeth yr ynadon a'r meistri haearn i aros yn **Nhafarn y Castell** gan gofrestru tua 70 o Gwnstabiliaid Gwirfoddol. Ceisiodd y Prif Ynad **J.B. Bruce**, ynghyd ag Anthony Hil, ddarbwylllo'r dorf i chwalu, ond heb fawr o lwyddiant. Darllenwyd y **Ddeddf Terfysg** yn Gymraeg ac yn Saesneg ond arhosodd y dorf.

Gyda'r hwyr ymgasglodd y dorf y tu allan i dŷ **Joseph Coffin**, sef **Llywydd y Llys Deisyfion**, gan ddinistrio'r cofnodion o ddyledion pobl yn ogystal â'r tŷ yn y pen draw. O ganlyniad i'r trais cynyddol, anfonwyd milwyr i mewn o Gaerdydd, Aberhonddu, Llantrisant a Chastell-nedd.

Ar 3 Mehefin cyrhaeddodd y milwyr o Aberhonddu ac aethant i **Dafarn y Castell**. Ymgasglodd torf o 10,000 y tu allan ac aeth dirprwyaeth i mewn i gyflwyno eu gofynion sef:

- Diddymu'r Llys Deisyfion
- Cyflogau uwch
- Diwygio
- Lleihau cost cyfarpar gwaith hanfodol.

Gwrthododd y meistri haearn ystyried y gofynion hyn a dychwelydd y ddirprwyaeth i'r dorf. Yna dywedodd yr Uchel Siryf wrth y dorf am wasgaru, gyda Crawshay yn annerch y dorf o Dafarn y Castell. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y weithred hon wedi digio'r dorf a geisiodd amgylchynu'r milwyr. Codwyd **Lewis Lewis** ar ysgwyddau rhai o'r dorf a galwodd am i'r milwyr dynnu eu harfau. Yn ôl Crawshay, a ysgrifennodd yn ddiweddarach i amddiffyn ei rôl yn y Gwrthryfel, rhuthrodd rhengoedd blaen y dorf ymlaen a:

'Cafwyd brwydr fawr...bu bron i'r milwyr gael eu trechu; cafodd yr uwchgaptan a llawer o ddynion eu hanafu a'u bwrw i'r llawr gan bastynau, a'u trywanu gan y bidogau roedd y dorf wedi mynd â nhw oddi wrthynt' (*The Late Riots at Merthyr*, 1831).

Yna **saethodd** y milwyr yn ffenestri'r Dafarn **i mewn i'r dorf**, gan ladd tri o'r dorf ar unwaith ac ar ôl pymtheg munud o ymladd ffyrnig arall, ymwasgarodd y dorf o'r diwedd. Anafwyd 16 o filwyr a lladdwyd hyd at **24** o'r dorf, ond am fod llawer o gyrff wedi cael eu cludo ymaith a'u claddu'n gyfrinachol, nid yw'n hysbys faint o bobl a gafodd eu lladd mewn gwirionedd.

Drannoeth ymosodwyd ar lwmyr Abertawe a oedd yn dod o Gastell-nedd a chipiwyd eu harfau. Roedd yn ymddangos bellach bod gan y dorf reolaeth lwyr. Fodd bynnag, ger pyrth Castell Cyfarthfa, cyfarfu'r dorf â dirprwyaeth arall o brotestwyr, ond beth bynnag oedd cynnwys y trafodaethau dechreuodd yr orymdaith chwalu. Mae'n bosibl mai'r presenoldeb



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

milwrol cynyddol a diffyg amcanion cyffredin a gyfrannodd at y digwyddiad hwn – **ni allai'r protestwyr gytuno ar eu nodau**. Er bod digwyddiadau eraill yma a thraw dyna drobwynt y Gwrthryfel.

Erbyn 6 Mehefin roedd torf a oedd yn amrywio o rhwng 12,000 ac 20,000 ar ei ffordd i Ferthyr gan gyfarfod protestwyr Merthyr yn y Waun. Penderfynodd yr awdurdodau nawr gymryd camau penderfynol. Anfonwyd milwyr, darllenwyd y Ddeddf Terfysg ac **anelodd y milwyr eu mwsgeidi**. Codwyd arswyd ar y dorf, a ildiodd a ffodd arweinwyr y gwrthryfel. Roedd Merthyr yn llawn braw wrth i'r awdurdodau ymosod ar dai ac arestio 18 o arweinwyr, gan gynnwys Lewis Lewis a ddaliwyd yn y pen draw mewn coed ger Hirwaun. Fe'u hanfonwyd i garchar Caerdydd i aros eu prawf. Fodd bynnag, byddai ymateb yr awdurdodau yn profi na fyddai protestio yn cael ei oddef ac y byddent yn gwneud esiampl o'r protestwyr er mwyn atal eraill.

[Portread o brotestwyr Merthyr yn trochi un o'u baneri yng ngwaed llo]



Parth Cyhoeddus - <http://www.socialistpartywales.org.uk/news227.shtml>

Twf Siartaeth

Sut gwnaeth Siartaeth ddatblygu a pham?

Y rhesymau dros dwf Siartaeth

Siartaeth, datblygiad naturiol o Radicaliaeth, oedd un o'r **mudiadau dosbarth gweithiol torfol cyntaf** mewn hanes. Y prif reswm dros ffurfio mudiad y Siartwyr oedd, yn ddi-os, **siom** gyffredinol a hyd yn oed **dicter** tuag at **Ddeddf Diwygio 1832** a oedd wedi rhoi'r bleidlais i rai elfennau o'r dosbarth canol ond nid i bawb. Yn bwysicach fyth, nid oedd y Ddeddf wedi rhoi'r bleidlais i'r dosbarth gweithiol o gwbl. O ganlyniad i hyn galwodd llawer o bobl am i'r gyfundrefn seneddol **gael ei diwygio ymhellach** er mwyn sicrhau mwy o gynrychiolaeth.

Cododd sawl ffactor arall ar y cyd â'r anfodddhad hwn. Roedd **amodau byw ac amodau gweithio** i'r dosbarthiadau gweithiol ar y cyfan yn enbyd o hyd a chafwyd galw cynyddol am welliannau. Yn 1834, pasiwyd Deddf Newydd y Tlodion, a gyflwynodd system y **tlotai** yr oedd pob yn ei ofni, ac ysgogwyd llawer o rannau o gymdeithas i'w gwrthwynebu. Drwy **ddylanwad y papurau newydd** a oedd o blaid diwygio pellach, parhaodd y mater i gael cryn sylw mewn dadleuon cyhoeddus a gwnaeth hyn, ynghyd ag **agwedd y Llywodraeth tuag at y dosbarthiadau gweithiol** ac undebaeth lafur, a gyflëwyd i'r dim yn y ffordd y cafodd **Merthyron Tolpuddle** eu trin, gan greu sefyllfa lle y byddai'r anfodlonrwydd yn parhau.

Nid oedd dylanwad Radicaliaeth erioed wedi diflannu, er gwaethaf mesurau fel y Chwe Deddf yn 1819 a'r ffaith i'w hapêl wanhau yn ystod adferiad economaidd y 1820au. Yn ystod y 1830au



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

ffurfiwyd grwpiau a oedd yn galw am i'r senedd gael ei diwygio ymhellach, er enghraifft **Cymdeithas Dynion Gweithiol Llundain**, o dan arweiniad William Lovett, Francis Place a chwe Aelod Seneddol Radicalaidd. Chwaraeodd **Undeb Gwleidyddol Birmingham** ran flaenllaw yn y galwadau am ddiwygio pellach hefyd. Yn 1837 lluniodd Cymdeithas Dynion Gweithiol Llundain restr o ofynion i'r Senedd a ddaeth yn sail i **Siarter y Bobl**. Ym mis Mai 1838, cyhoeddwyd y Siarter a oedd yn dangos yn glir ddylanwad y mudiad Radicalaidd o hyd. Ei gofynion oedd:

1. Pleidlais i bob dyn yn 21 oed.
2. Pleidlais gudd er mwyn diogelu'r etholwr.
3. Dim cymwysterau eiddo i ASau fel y gallai etholwyr ethol dyn a ddewiswyd ganddynt, boed yn ddyn cyfoethog neu'n ddyn tlawd.
4. Talu ASau fel y gallai dynion gweithiol cyffredin fforddio cynrychioli eu hetholaeth.
5. Etholaethau cyfartal er mwyn sicrhau'r un gynrychiolaeth am yr un nifer o etholwyr.
6. Seneddau blynyddol a fyddai, yn nhyb y Siartwyr, yn atal llwgrwobrwyo a llygredd yn ystod y broses etholiadol yn ogystal â gwneud ASau yn fwy atebol.

Rolau Lovett ac O'Connor; Siartaeth y grym corfforol a'r grym moesol; y Confensiwn a'r Deisebau

Dau o arweinwyr mwyaf blaenllaw'r Siartwyr oedd **William Lovett** a **Feargus O'Connor**. Lovett oedd ysgrifennydd Cymdeithas Dynion Gweithiol Llundain ac awdur Siarter y Bobl o bosibl. Roedd yn gadarn yn erbyn defnyddio trais fel modd i gyflawni ei nodau. Roedd yn gredwr mawr y byddai Siartaeth yn cael ei chyflawni drwy **ddulliau heddychlon**, fel deisebau ac addysg.

Ymunodd **O'Connor** â'r Siartwyr yn 1836. Ac yntau'n dirfeddiannwr o lwerddon ac yn gyn-Aelod Seneddol, ymgwymerodd â rôl Arweinydd Cenedlaethol yn y pen draw. Yn 1837 prynodd bapur newydd **The Northern Star** yn Leeds a'i ddefnyddio i ledaenu ei syniadau ynglŷn â Siartaeth. Fodd bynnag, yn wahanol i Lovett roedd yn credu mewn sicrhau'r Siarter drwy ba ddulliau bynnag ag y bo, gan gynnwys defnyddio **gweithredoedd corfforol uniongyrchol**. Roedd ganddo enw am fod yn un unplyg, a achosodd iddo ffraeo â ffigyrau blaenllaw eraill ymhllith y Siartwyr, gan gynnwys Lovett, nad oedd yn hoffi ei agwedd drahaus. Byddai anghydweld o'r fath yn ffactor pwysig yn nhranc y mudiad yn y diwedd.

Cafodd y gwahaniaethau rhwng Lovett ac O'Connor eu hadlewyrchu drwy'r mudiad cyfan, yn enwedig o ran sut y câr gofynion eu bodloni. O ganlyniad, yn fuan ystyriwyd bod gan Siartaeth ddwy brif elfen – **Siartiaeth grym corfforol** a **Siartaeth grym moesol**. Roedd Siartwyr grym corfforol, o dan arweiniad O'Connor, yn dadlau o blaid defnyddio streic gyffredinol pe na châi eu gofynion eu bodloni, a allai arwain at wrthryfel pe bai'r gwrthwynebiad yn parhau. Roedd Siartwyr grym moesol, o dan arweiniad Lovett, yn dadlau o blaid defnyddio deisebau, cyfarfodydd, papurau newydd, taflenni ac addysg i ddwyn perswâd ar y Llywodraeth i dderbyn y Siarter. Fodd bynnag, roedd y rhaniadau yn gwanhau mudiad y Siartwyr. Roedd Siartwyr




1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

grym corfforol yn cael eu hystyried yn beryglus gan yr awdurdodau a rhoddodd hynny esgus iddynt ddefnyddio milwyr i ymdrin â phrotestiadau o'r fath. Roedd Siartaeth grym moesol yn wan yn ei hanfod oherwydd, am nad oedd yn ddylanwadol, y gellid ei hanwybyddu.

Yn 1838, cyfarfu'r gwahanol grwpiau o Siartwyr o bob rhan o'r wlad yn Birmingham a chytunwyd ar y chwe phwynt, a hefyd penderfynwyd casglu llofnodion ar gyfer **deiseb genedlaethol** a gâi ei chyflwyno i'r **Senedd**. Cytunwyd hefyd i gynnal **Confensiwn Cenedlaethol i Siartwyr** yn Llundain ym mis Chwefror 1839 i benderfynu ar strategaeth y mudiad yn y dyfodol. Fodd bynnag, yn ystod y Confensiwn ni ellid goresgyn y gwahaniaeth barn ac ar ddiwedd y trafodaethau cerddodd Lovett a'r Siartwyr 'grym moesol' allan ar ôl awgrym y dylid mabwysiadu tactegau treisgar y Siartwyr 'grym corfforol'. Roedd datblygiadau o'r fath yn codi braw ar y Llywodraeth, a rybuddiodd y fyddin i fod yn barod.

[William Lovett]

Parth Cyhoeddus - <https://goo.gl/Nu2eYw>

Ym mis Gorffennaf 1839 cyflwynwyd **Deiseb gyntaf y Siartwyr** i'r Senedd gan yr ASau Thomas Attwood a John Fielden, a honnwyd ei bod wedi'i llofnodi gan 1,280,000 o bobl. Ond, yn anochel, cafodd ei **gwrthod gan Dŷ'r Cyffredin** mewn pleidlais o 235 yn ei herbyn a 46 o'i phlaid. Cafwyd rhai achosion o gynnwrf ledled y wlad, a dawelwyd yn gyflym, ond roedd y Llywodraeth yn benderfynol o osgoi risgiau gan arestio a charcharu dros 500 o Siartwyr, gan gynnwys Lovett ac O'Connor.

Roedd methiant y ddeiseb yn anochel, ond nid oedd hynny'n atal y Siartwyr rhag ad-drefnu a rhoi cynnig ar **Ail Ddeiseb yn 1842** ar adeg pan oedd y sefyllfa economaidd wedi dirywio. Unwaith eto, collwyd y bleidlais o 287 i 49. Gwrthododd ASau ystyried y mater. Arweiniodd y bleidlais i wrthod y ddeiseb a'r dirwasgiad at streiciau ledled y wlad, a elwid hefyd yn **Gynllwyn y Plygiau** lle roedd streicwyr yn tynnu plygiau o injans ager i'w hatal rhag gweithio. Fodd bynnag, erbyn mis Medi roedd y streiciau wedi darfod, oherwydd diffyg arweinyddiaeth a'r defnydd o rym a chosbau llym gan y Llywodraeth.

Roedd Siartaeth yn llawer gwannach fel grym gwleidyddol ar ôl i'r ddeiseb gael ei gwrthod a phan adferodd yr economi ar ôl 1842. Fodd bynnag, fel y digwyddodd bron bob amser, arweiniodd dirywiad yn yr amgylchiadau economaidd

[Mynd ag Ail Ddeiseb y Siartwyr i'r Senedd, 1842]



Heb lwyddo i olrhain yr hawlfraint. A fydddech cystal â chysylltu â ni os chi yw deiliad yr hawlfraint.



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

at **adfywiad mudiad y Siartwyr** yn 1847-8. Trefnodd Feargus O'Connor, a oedd yn dal i fod yn weithgar, ddeiseb arall a chyfarfod cyhoeddus mawr i'w gynnal ar **Gomin Kennington**, Llundain ar 10 Ebrill 1848.

Gweithredodd y Llywodraeth yn ofalus gan drefnu i lu mawr o filwyr a heddweision fod yn bresennol, mwy yn y pen draw na'r 20,000 o Siartwyr a ddaeth i'r cyfarfod. Ar ôl iddo fynd rhagddo'n ddidrafferth, cyflwynodd O'Connor y ddeiseb i'r Senedd gan honni ei bod yn cynnwys dros bum miliwn a hanner o lofnodion. Fodd bynnag, ar ôl edrych arni gwelwyd bod llai na dwy filiwn o lofnodion, yr oedd llawer ohonynt yn ffug. Wedi'r digwyddiad hwn gwelwyd diwedd Siartaeth fel grym pwysig er newid gwleidyddol, ond nid oes modd gwadu'r effaith a gafodd yn ystod y deng mlynedd neu fwy pan oedd yn weithgar iawn.

Siartaeth yng Nghymru: yr orymdaith i Gasnewydd a digwyddiadau yn Llanidloes, 1839

Roedd Deddf Diwygio 1832, fel yn Lloegr, wedi bod o fudd i'r dosbarthiadau canol newydd. Roedd meistri haearn Merthyr yn enghraifft o sut roedd y Ddeddf wedi rhoi'r bleidlais i'r rhai a oedd ag arian neu eiddo. Roedd y diffyg grym gwleidyddol i ddosbarth gweithiol Cymru wedi cyfrannu at dwf Siartaeth, yn enwedig yn ardaloedd diwydiannol newydd y wlad. Fodd bynnag, cafodd grwpiau o Siartwyr eu sefydlu mewn ardaloedd gwledig hefyd. Er enghraifft, yn 1837 sefydlwyd **Cymdeithas i Ddynion Gweithiol** yng Nghaerfyrddin gan Hugh Williams, cyfreithiwr lleol.

Fodd bynnag, yn yr ardaloedd diwydiannol roedd Siartaeth gryfaf. Yng nghymoedd cloddio glo Morgannwg a Sir Fynwy roedd 34 o Gymdeithasau Dynion Gweithiol wedi cael eu sefydlu erbyn 1839. Yn Sir Fynwy, y ffigwr mwyaf blaenllaw oedd **John Frost o Gasnewydd**. Radical oedd Frost, a oedd wedi cefnogi'r Mesur Diwygio ac roedd yn aelod blaenllaw o Undeb Gwleidyddol Casnewydd. Yn 1836, cafodd ei ethol yn Faer **Casnewydd** ac yn Ynad Heddwch. Fodd bynnag, y flwyddyn ddilynol cafodd ei ddisodli fel **Maer** gan ei gyd-ymgeisydd Thomas Phillips ac o ganlyniad cafodd ei siomi gan wleidyddiaeth leol fel ag yr oedd, a dechreuodd ymwneud eithaf tipyn â Siartaeth a hyd yn oed fel dirprwy Casnewydd i Gonfensiwn Cenedlaethol y Siartwyr yn Llundain.

Lledaenodd Siartaeth yn gyflym yn yr ardal, gyda chymorth yr areithiwr poblogaidd, **Henry Vincent**, a gefnogai Siartaeth 'grym corfforol'. Oherwydd ei weithgareddau cafodd Vincent ei wahardd o Gasnewydd a dechreuodd yr awdurdodau gymryd camau yn erbyn Siartaeth. Gwaharddwyd cyfarfodydd, cafodd pobl eu harfogi a'u hyfforddi i wrthsefyll y Siartwyr ac **arestiwyd Vincent** a tri o Siartwyr blaenllaw eraill Casnewydd ym mis Mai 1839.


O ganlyniad i'r arestiadau hyn, denodd Siartaeth 'grym corfforol' fwy o gefnogwyr yn yr ardal ac ar 20 Mai cynhaliwyd cyfarfod mawr i Siartwyr yn y Coed-duon lle daeth tri arweinydd i'r amlwg – **John Frost, Zephaniah Williams a William Jones**. Dechreuwyd ymdrefnu'n grwpiau a storio arfau, ond honnodd Frost yn ddiweddarach ei fod wedi cael ei orfodi i gymryd rhan. Y nod oedd gorymdeithio i Gasnewydd, a allai fod wedi bod yn rhan o **wrthryfel mwy ym Mhrydain** o bosibl. Felly mae rhai haneswyr wedi awgrymu mai ymgais at **chwyltro cenedlaethol** oedd hyn.



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

Bwriadwyd cynnal **yr Orymdaith i Gasnewydd** ar 4 Tachwedd. Arweiniodd Frost o'r Coed-duon, gan gasglu dynion ac arfau ar hyd y ffordd, cyn cyrraedd Cefn. **Ni chyrrhaeddodd** grŵp William Jones o'r Rhisga, am fod ganddo gynlluniau eraill o bosibl. Roedd y niferoedd a gyrhaeddodd Gefn yn annigonol, roeddent yn wlyb at y croen oherwydd y tywydd ofnadwy ac roeddent wedi bod yn yfed o bosibl, ond serch hynny penderfynwyd parhau i orymdeithio i Gasnewydd mewn tyrfa o **sawl mil**.

[Cyrrch y Siartwyr ar Westy'r Westgate, Casnewydd, 4 Tachwedd 1839]



The attack of the Chartists on the Westgate Hotel, Newport, Mon. Nov. 4th, 1839. W. W. & C.

Parth Cyhoeddus - <https://goo.gl/Yrl6lj>

mynediad, **saethodd y milwyr at y dorff y tu allan** ac yna at y Siartwyr a oedd wedi llwyddo i fynd i mewn i'r Gwesty. Yn yr anhrefn a ddilynodd, **lladdwyd llawer o Siartwyr** – tua 22, er bod dirgelwch ynglŷn â'r niferoedd a laddwyd, sef y nifer uchaf o anafusion mewn unrhyw derfysg yn y 19^{eg} a'r 20^{fed} ganrif. Gan fod llawer mwy o arfau tanio gan y milwyr na nhw, **ffodd gweddill y Siartwyr** mewn anhrefn.

Yn union ar ôl y Gwrthryfel cafodd yr arweinwyr eu hymlid gan yr awdurdodau. Gosodwyd posterï gwobr, **arestiwyd yr arweinwyr** a chasglwyd tystiolaeth. Anfonwyd 60 o'r arweinwyr pwysicaf i Drefynwy i sefyll eu prawf. Amddiffyniad y Siartwyr oedd bod yr orymdaith ond yn ymgais i ddangos eu nerth er mwyn cael pardwn i Vincent. Honnodd yr erlyniad fod y Siartwyr yn euog o frad.

Cafwyd y prif arweinwyr yn euog ym mis Ionawr 1849 a gosodwyd posterï yn nodi'r dedfrydau i atal eraill.

Fodd bynnag, daeth yr awdurdodau i wybod am y cynlluniau hyn. Roedd Thomas Phillips, y Maer a chydymgeisydd Frost wedi trefnu i 500 o gwnstabiliaid gwirfoddol dyngu llw ac wedi gofyn am i filwyr gael eu hanfon i Gasnewydd. Ar 3 Tachwedd cafodd 30 o filwyr eu hanfon i **Westy'r Westgate**. Cafodd Frost wybod am hyn gan ysbiwyr ar ran y Siartwyr ac felly gorymdeithiwyd i lawr **Stow Hill** i mewn i Gasnewydd tuag at y gwesty.

Wrth i'r Siartwyr geisio cael

[Cyrrch y Siartwyr ar Westy'r Westgate]



De Luan / Alamy Stock Photo



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

Cafwyd Frost, Williams a Jones yn euog o uchel frad a dedfryd o **grogï, diberfeddu a chwarteru**. Fodd bynnag, ar ôl ymgyrch frwd i gael dedfrydau llai llym cawsant eu **trawsgludo** yn y diwedd. Dim ond John Frost a ddychwelodd i Gymru, a hynny yn 1856 ar ôl cael pardwn, pan gafodd ei groesawu fel arwr.

Fodd bynnag, nid yr unig enghraifft o brotestiadau'r Siartwyr yng Nghymru oedd Gwrthryfel Casnewydd. Yn ystod degawdau cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg datblygodd 'treffi gwlân' yn y **Canolbarth** – y Drenewydd, y Trallwng a **Llanidloes**. Roedd amodau yn y melinau gwlân yn llym, a hefyd yr amodau byw ac iechyd y cyhoedd yn gyffredinol. Roedd y ffactorau hyn, ynghyd â Deddf newydd y Tlodion yn 1834 a'r anfodlonrwydd cyffredinol, wedi arwain at ffurfio **canghennau o'r Siartwyr yn y Canolbarth**, gyda'r un gyntaf yn y Drenewydd yn 1837.

Un o brif arweinwyr Siartaeth yn y Canolbarth oedd **Thomas Powell**. Ynghyd â Siartwyr blaenllaw eraill yn y Canolbarth dadleuodd o blaid Siartaeth 'grym moesol' fel modd i gyflawni Siarter y Bobl. Fodd bynnag, gwnaeth Siartwyr fel **Henry Hetherington**, a deithiodd drwy'r Canolbarth cyfan yn ystod gwanwyn a haf 1839, annog cynulleidfaoedd i ddilyn Siartaeth 'grym corfforol' a chyn hir roedd wedi denu llawer o gefnogwyr yn yr ardal.

Fodd bynnag, aelod mwyaf blaenllaw'r awdurdodau yn ardal Llanidloes oedd **T. E. Marsh**, cyn-Faer y dref ac ynad pwysig. Penderfynodd fod angen cymryd camau yn erbyn y Siartwyr yn yr ardal, gan ofyn am gymorth yr Ysgrifennydd Cartref, a chafodd dri heddwas. Fodd bynnag, roedd Marsh yn benderfynol, gan dderbyn llw tua 300 o Gwnstabiliaid Gwirfoddol, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn denantiaid iddo fwy na thebyg ac nad oedd ganddynt fawr ddim dewis yn hynny o beth.

Erbyn 29 Ebrill 1839 roedd sion ar led bod Marsh ar fin arestio arweinwyr y Siartwyr lleol. Drannoeth cynhaliwyd cyfarfod o Siartwyr ar y **Bont Hir** yn y dref, lle cawsant eu hysbysu bod yr heddweision wedi arestio Siartwyr a oedd yn cael eu dal yng ngwesty'r **Trewythen Arms**. Aeth y dorf i'r gwesty ond roedd yn cael ei amddiffyn gan 50 o Gwnstabiliaid Gwirfoddol Marsh.

[Gwesty'r Trewythen Arms, Llanidloes, lleoliad cynnwrf gan Siartwyr ym mis Ebrill 1839]



Delwedd gan Amgueddfa Llanidloes. Nid yw perchennog y ddelwedd wreiddiol yn hysbys.

Ni wnaeth hyn atal y protestwyr a ymosododd ar yr adeilad, gan ryddhau eu cyd-Siartwyr, curo'r heddweision a gwneud difrod mawr i du mewn y Gwesty.

Yn ystod yr ychydig ddyddiau nesaf, roedd Llanidloes **o dan reolaeth y Siartwyr**. Fodd bynnag, roedd popeth yn heddychlon gyda phatrolau o Siartwyr yn sicrhau cyfraith a threfn. Roedd Marsh bellach wedi gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol am gymorth milwrol ac o'r diwedd cyrhaeddodd y **milwyr** y dref ar 3 Mai, ond ychydig o anhrefn



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

fu, os o gwbl. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod Marsh yn benderfynol o gael gwared ar Siartaeth yn y dref a chafodd 32 o Siartwyr lleol eu harestio, gan gynnwys Thomas Powell. Yn sicr, nid oedd rhai o'r unigolion a arestiwyd wedi chwarae unrhyw ran yn yr hyn a ddigwyddodd yn Llanidloes, sy'n awgrymu bod cymhellion ehangach ar waith.

Fodd bynnag, er gwaethaf y diffyg tystiolaeth yn erbyn llawer o'r rhai a gyhuddwyd, cafwyd pob un **yn euog** a rhoddwyd **dedfrydau llym**. Cafodd tri dyn o Lanidloes, Abraham Owen, Lewis Humphreys a James Morris ddedfryd o **drawsgludo**, gyda'r gweddill yn cael tymor yn y carchar am gyfnodau amrywiol. Achosodd y dedfrydau ddicter mawr yn y Canolbarth a chafodd Marsh, yn enwedig, ei erlid am flynyddoedd lawer wedi hynny. Fodd bynnag, mae'r graddau roedd y protest yn ymwneud yn benodol â nodau'r Siartwyr wedi bod yn destun dadl, ond parhaodd Siartwyr yn yr ardal i fod yn weithgar ymhell i'r 1850au.

Protestio mewn ardaloedd gwledig

Pa amodau wnaeth arwain at brotestiadau mewn ardaloedd gwledig yn ystod y cyfnod hwn?

Achosion Terfysgoedd Swing

Roedd datblygiadau'r Chwyldro Diwydiannol wedi effeithio ar economïau gwledig mewn sawl ffordd. Roedd yr awdur Radicalaidd **William Cobbett** wedi sylwi ar y newidiadau yn ardaloedd gwledig Lloegr yn ystod cyfres o deithiau ganddo drwy dde Lloegr yn ystod y 1820au, a gyhoeddwyd yn y llyfr **Rural Rides**. Roedd ei arsylwadau yn feirniadol o'r newidiadau a oedd wedi digwydd – y dulliau ffermio newydd, yr effaith ar ddosbarth y llafurwyr yn ogystal â'r dirywiad cyffredinol yn y pentrefi roedd wedi mynd drwyddynt ar ei geffyl, lle roedd bythynnod yn adfeilio ac roedd y tir yn mynd yn segur. Roedd yn hallt iawn ei feirniadaeth am gyflwr y llafurwyr amaethyddol nad oeddent wedi bod yn rhan o adferiad economaidd y 1820au, a oedd wedi gwanhau dylanwad Radicaliaeth mewn llawer o ardaloedd diwydiannol.

Er i'r **Deddfau ŷd** gael eu pasio i sefydlogi pris ŷd, methwyd â chyflawni hyn ac yn ystod y cyfnod hwn gostyngodd y pris, gan arwain at ostyngiad yn incwm ffermwyr ac felly **doriad mewn cyflogau** i'w llafurwyr. Gan fod cyflogau yn yr ardaloedd gwledig hyn dipyn yn is na'r cyfartaledd fel arfer, roedd y mwyafrif o'r llafurwyr yn cael **cymorth y plwyf**, a oedd wedi cael ei **gwto**gi oherwydd y gost gynyddol. Roedd tlodi dosbarth y llafurwyr wedi arwain at fwy o dorcyfraith, yn enwedig herwhela, ac o ganlyniad i'r costau llym a roddwyd os oedd tresmaswyr yn cael eu dal, a oedd yn arbennig o wir ar ôl pasio'r **Deddfau Helwriaeth** yn 1816, a bennodd mai'r gosb am herwhela oedd trawsgludiad am saith mlynedd.

Ar ben hyn cafwyd baich **degwm yr eglwys**, a oedd wedi dod yn dreth ychwanegol i bob diben. Roedd yn daladwy i Berson Eglwys Loegr, yn aml er mwyn talu ei gyflogau. Roedd y gwaith o gasglu'r degwm yn cael ei orfodi'n llym ac roedd talu'r arian hwn yn hynod amhoblogaidd ymhlith dosbarth y llafurwyr.



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

Hefyd, roedd **diweithdra** ar gynnydd mewn ardaloedd gwledig, gyda rhai ffermwyr yn defnyddio **peiriannau** er mwyn lleihau eu costau, a oedd yn golygu bod sefyllfa'r llafurwyr hyd yn oed yn waeth. Yr ergyd olaf i'r llafurwyr, a oedd yn anobeithio erbyn hyn, oedd y defnydd cynyddol o'r **peiriant dyrnu**. Roedd dyrnu â llaw wedi bod yn ffynhonnell werthfawr o gyflogaeth yn ystod misoedd yr haf, ond roedd y peiriannau dyrnu a oedd yn cael eu cyflwyno, gan achosi diweithdra, yn anochel, yn cael eu hystyried yn ymosodiad arall ar ffordd o fyw a oedd yn wynebu tranc. Byddai'r ffactorau hyn yn dod ynghyd yng **Ngwrthryfel y Llafurwyr**, neu'r **Terfysgoedd Swing** fel y'u gelwid yn fwy cyffredinol.

Gweithgareddau'r terfysgwyr Swing: difrodi eiddo, llythyrau bygythiol

Ar 28 Awst 1830, dinistriwyd peiriant dyrnu yn Lower Hargreaves, yng Nghaergaint yng Nghaint. Dyma'r cyntaf o bron 1,500 o ddigwyddiadau yn y diwedd a oedd yn gysylltiedig â'r **Terfysgoedd Swing**, fel yr oeddent yn cael eu galw. Roedd y digwyddiadau yn ymestyn o swydd Gaint i Gernyw, o Hampshire i swydd Lincoln, gyda rhai hyd yn oed ymhellach i'r gogledd ac nid oedd yr awdurdodau wedi'u disgwyl. Roedd y tactegau a fabwysiadwyd gan y terfysgwyr, a oedd wedi'u henwi ar ôl arweinydd dychmygol '**Capten Swing**', yn cynnwys dinistrio peiriannau dyrnu, llosgi bwriadol, mynnu bwyd neu arian oddi wrth y cyfoethogion drwy drais, terfysgoedd ac anfon llythyrau bygythiol at dirfeddianwyr a chlerigwyr.

Gangiau bach yn gweithredu gyda'r nos fu'n bennaf cyfrifol am yr

[Er iddo gael ei gyhoeddi yn 'Punch' yn 1844, bedair blynedd ar ddeg ar ôl y Terfysgoedd Swing, mae'r cartŵn hwn sy'n dwyn y teitl 'The Home of the Rickburner', yn crisialu i'r dim y sefyllfa enbyd a wynebai llafurwyr amaethyddol.]



"The Home of the Rick-Burner"
gan John Leech, Punch,
1844, Parth Cyhoeddus.

[Llun cyfoes o ymosodiad gan derfysgwyr Swing]



Delwedd clasur / Alamy Stock Photo



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

y mosodiadau, gyda'r mwyafrif yn weision fferm yn eu hugeiniau a'u tridegau. Roedd dicter y terfysgwyr wedi'u hanelu at y **peiriannau dyrnu** gan mwyaf, ond roedd achosion o losgi teisi gwair yn fwriadol hefyd yn gyffredin. Prif ffocws y terfysgwyr oedd eiddo – targedwyd ysguborion yn ogystal ag adeiladau a oedd yn cynnwys injans ar gyfer y peiriannau dyrnu. Digwyddodd terfysgoedd yd o bryd i'w gilydd, lle y câi caeau o yd eu llosgi weithiau gan y terfysgwyr. Roedd yd hefyd yn cael ei ddwyn o wrysau a'i werthu am bris rhatach i'r tlodion.

Nodwedd arall ar y Terfysgoedd Swing oedd y defnydd o **lythyrau bygythiol**, a oedd fel arfer yn cynnwys rhybudd i godi cyflogau, rhoi'r gorau i ddefnyddio peiriannau, lleihau'r degwm neu fod yn barod i dderbyn yr hyn a ddigwyddai. Roeddent yn cael eu llofnodi gan 'Captain Swing' neu 'Swing' ac roeddent yn codi arswyd ar dirfeddianwyr a chlerigwyr a ymatebodd weithiau drwy gytuno i'r gofynion.

[Enghraifft o lythyr bygythiol a anfonwyd yn ystod y Terfysgoedd Swing]

Sir

This is to acquaint you
that if your thrashing Ma-
chines are not destroyed by
you directly we shall com-
mence our labours

signed on behalf
of the whole Swing



Parth Cyhoeddus - <http://www.executedtoday.com/tag/swing-riots/>

Achosion Terfysgoedd Beca

Mewn sawl ffordd nid oedd llawer o'r gwelliannau a ddaeth yn sgil y Chwyldro Amaethyddol wedi cyrraedd cefn gwlad gorllewin Cymru. Roedd rhai ffermwyr yn berchen ar eu ffermydd bach eu hunain – **rhydd-ddeiliaid** oeddent, ond roedd y rhan fwyaf ohonynt yn **lesddeiliaid**, a oedd yn rhentu neu brydlesu eu tir. Erbyn y 19eg ganrif, roedd rhai o'r prydlesau yn cael eu rhoi am gyfnod byr – am flwyddyn yn unig, a arweiniodd at ddiffyg sefydlogrwydd i ffermwyr. Roedd **rhacrentu**, neu golli tir i rywun a oedd yn talu mwy o rent, yn dod yn beth mwyfwy cyffredin.

Cafodd tensiynau rhwng tenantiaid a'u landlordiaid eu dwysáu oherwydd eu ffordd o fyw mor wahanol. Roedd y **tirfeddianwyr** yn arfer rheolaeth gymdeithasol a gwleidyddol dros orllewin Cymru, gan dueddu i fod yn AS dros eu hardal a/neu'n Ynad Heddwch, gyda chyfrifoldeb am gyfraith a threfn, ardrethi a chymorth y tlodion. Roedd eu ffordd o fyw foethus mewn gwrthgyferbyniad llwyr â thlodi eu tenantiaid. Roedd llawer yn **absennol**, yn byw yn Llundain a oedd yn golygu bod ganddynt lai o ddealltwriaeth fyth o broblemau lu eu tenantiaid.

Roedd gwahaniaethau crefyddol ac ieithyddol hefyd yn golygu bod tenantiaid wedi ymddieithrio oddi wrth eu landlordiaid. Er bod y mwyafrif llethol o denantiaid fferm yn siarad Cymraeg yn



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

[Castell Dinefwr yn sir Gaerfyrddin, plasty'r Teulu Rice]



Heb lwyddo i olrhain yr hawlfraint. A fydddech cystal â chysylltu â ni os chi yw deiliad yr hawlfraint.

unig, roedd eu landlordiaid yn siarad Saesneg yn unig. Yn yr un modd, roedd tenantiaid fferm yn tueddu i fod yn **Anghyddfurfwr** o ran eu crefydd, gan fynychu'r capel, ond roedd y bonedd yn **Eglwyswyr**, yn aelodau o Eglwys Loegr. Daeth hyn yn ffactor pwysig yn yr hyn a achosodd Derfysgoedd Beca gan fod yn rhaid i denantiaid dalu rhent a'r **degwm**, sef un rhan o ddeg o gynnyrch rhywun yr oedd yn rhaid ei roi i'r Eglwys. Erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd llawer o'r hawliau i'r degymau hyn wedi cael eu prynu gan dirfeddianwyr ac ar ôl **Deddf Cyfnewid y Degwm 1836**, roedd y rhain yn daladwy mewn arian parod – a oedd yn amlwg yn faich ychwanegol ar bobl a oedd eisoes yn dlawd. Roedd cryfder Anghyddfurfiaeth yn y gorllewin yn golygu bod gan y capeli a'r ysgolion Sul gryn ddylanwad. Wrth feirniadu Eglwys Loegr a'r landlordiaid a oedd yn ei chefnogi, pregethodd llawer ar **Lyfr Genesis 24 adnod 60**:

'Ac a fendithiasant Rebeca ac a ddywedasant wrthi, etifedded dy had borth ei gaseion.'

Byddai dylanwad pregethu o'r fath a ffanatigiaeth grefyddol yn amlygu ei hun yng ngweithgareddau terfysgwyr Beca.

Roedd y tlodi roedd pobl yn aml yn ei wynebu yn golygu, hyd at 1834, eu bod yn cael **cymorth y tlodion** – system o gymorth a oedd yn dyddio'n ôl i oes y Tuduriaid. Fodd bynnag, roedd y



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

system yn dod yn gynyddol anfforddiadwy ac yn y flwyddyn honno o dan **Ddeddf Newydd y Tlodion** cyflwynwyd y tloty yn lle cymorth ariannol. Roedd y rhain yn lleoedd ofnadwy ac yn fuan daethant yn achos dicter mawr, a achosodd fwy o anfodlonrwydd fyth yn y gorllewin.

Bu traddodiad o brotest cyn 1839. Un enghraifft o'r fath oedd y **ceffyl pren**, lle câi person amhoblogaidd, neu ddelw'r person, ei gludo ar bolyn pren er mwyn eu gwaradwyddo ac yna câi ffug dreial ei gynnal. Roedd y math hwn o gyfiawnder lleol, lle y byddai pobl yn duo eu hwynebau yn ystod y gweithrediadau, yn cynnwys rhai o syniadau Terfysgoedd Beca diweddarach. Roedd y ffaith nad oedd heddlu i ymdrin ag achosion o'r fath, ac mai'r unig awdurdod oedd yr hyn o eiddo Cwnstabiliaid Gwirfoddol a oedd wedi tyngu llw, yn sicrhau na chafodd protestiadau na chyfiawnder o'r fath eu hatal yn aml.

Cafodd y materion amaethyddol, tenantiaeth a diwylliannol hirdymor hyn eu dwysáu gan y ffaith bod angen **calch** ar denantiaid fferm fel gwrtai i wneud y pridd yn llai asidig. Er bod llawer o chwareli calch ar ymyl meysydd glo'r de, i lawer o ffermwyr yn y gorllewin roedd y rhain dipyn o bellter i ffwrdd ac yn golygu teithiau araf, dros **ffyrdd gwael iawn**. Byddai'n rhaid teithio i'r chwareli hyn drwy **ffyrdd tyrpeg**. Roedd drwg arferion yn y system dyrpeg yn rhemp a nhw fyddai'n gyfrifol am danio Terfysgoedd Beca.

Roedd **Ymddiriedolaethau Tyrpeg** wedi cael eu sefydlu ar ddiwedd y 18fed ganrif, lle roedd grwpiau o ddynion busnes wedi prynu darnau o dir, wedi atgyweirio neu wedi adeiladu ffyrdd ac wedi codi **tollau** ar deithwyr i'w defnyddio. Fodd bynnag, erbyn y 1830au yn y gorllewin roedd nifer yr ymddiriedolaethau, ac felly'r tollbyrth lle bu'n rhaid i deithwyr stopio a thalu, wedi mynd yn broblem fawr. Ar y dechrau, roedd calch wedi'i eithrio rhag y tâl, ond gan fod pobl yn ei ddefnyddio i orchuddio nwyddau eraill, codwyd tollau a wrthwynebwyd yn chwyrn gan denantiaid fferm tlawd. Yn ogystal â hyn, roedd **ffermwyr tollau** yn cael eu cyflogi, a'r un mwyaf drwg-enwog yn yr ardal oedd **Thomas Bullin**, a aeth ati i godi tollbyrth newydd a sicrhau y câi'r tollau eu talu. Er ei bod yn ymddangos mai'r ffyrdd tyrpeg a'u tollau oedd y prif reswm dros Derfysgoedd Beca, fel y gellir gweld o'r cyfuniad o ffactorau a ddisgrifiwyd, yr **ergyd olaf** oeddent mewn gwirionedd – baich arall eto ar bobl dlawd er elw pobl gyfoethog.

Gweithgareddau Terfysgwyr Beca: bygythiadau, ymosodiadau ar dollbyrth a thlotai

Rhwng 1838 a 1839 gwelwyd cryn galedi yn y gorllewin oherwydd gaeaf garw a chynhaeaf gwael. Ar yr un pryd, rhoddwyd y cyfrifoldeb am gasglu tollau yn ardal Hendy Gwyn ar Daf i Thomas Bullin, a aeth ati'n syth i gynyddu'r taliadau a chodi tollbyrth newydd – pedwar ohonynt wrth ymyl pentref **Efail-wen**, ger Sanclêr. Mae'n ymddangos mai hyn a sbardunodd ymosodiad cyntaf Beca a ddigwyddodd ar **13 Mai 1839** pan ddinistriwyd y tollbyrth newydd a thollty. Fodd bynnag, ymddangosai mai achos unigryw oedd y digwyddiad hwn, er iddo achosi cryn ddiddordeb yn lleol, gan na fu unrhyw gynnwrf arall am dair blynedd.

Fodd bynnag, ailddechreuodd y protestiadau ar ddechrau'r 1840au yn sgil cyfres o aeafau garw a chynaeafau gwael. Ym **mis Hydref 1842**, cododd y 'Main Turnpike Trust' bedwar tollborth ar ei ffyrdd, gweithred a arweiniodd at ailymddangosiad Beca a'i chefnogwyr, a ddinistriodd y

1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

tollbyrth ym Mhwll Trap a Mermaid ger Sanclêr. Roedd ymateb yr awdurdodau i'r ymosodiadau wedi'u cyfyngu gan brinder adnoddau. Ar ôl gofyn i'r Llywodraeth am gymorth, y cyfan a gafodd yr awdurdodau lleol oedd dau Heddwlas Metropolitan, felly bu'n rhaid iddynt gofrestru mwy

[Llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr 1842, gan 'Becca & children' yn bygwth gweithredu yn erbyn y rhai sy'n gysylltiedig â 'Bowlin (Bullin) a'i gwmni]

o Gwnstabliaid Gwirfoddol. Daeth y rhain ynghyd â thirfeddianwyr a chlerigwyr lleol, yn darged ar gyfer math arall o ymosodiad gan Beca, sef anfon **llythyrau bygythiol**.

Take Notice

I wish to give you notice especial to those which has sworn to be constable in order to grasp Becca and her children but I can sure you that it ~~is~~ will be to hard matter for Bowlin and Comp^y to finish the job that they began and that is to keep up the gate at Slanengel and winefact^y put
Now take this few lines as information for you to mind yourselves, you that had any connection with the Bowline
Mr^s M^cLes, Mr^s Shorn as Blue Boas, all thine property in one night shall be in conflagration if they will not obey to this notice. and that to send them vagabonds away with you are favorable to, I away like to be plain in
all my engagement is it a reasonable thing that they in pose so much on the county only picking poor laborers and farmers pockets, and you begin that all the gates that are on these roads shall be destroyed, I am willing for the gates on the Queen Road to stand, it is shameful thing for us wellcomen to have the one of Henequist, have a Dominion over us, Do you not remember the long knives which Henequist hath invented to hide our fore fathers and you may depend that you shall receive the same, if you will not give up, when I shall give you a visit and that shall be in a short time and now I would give an order to leave the place before I will come, for, I do determin that I will have my way all through, As for the constable and the police men, Becca her children heads no more of them than the grass hoppers which fly in the summer there are others which as marked with Becca, but they shall not be named now but in case they will not obey to this notice she shall call about them in a short time.

Town Maximith }
Dec^r 16 1842 }
Faithful to Death
with the county
Becca & children

Ym mis Ionawr a mis Chwefror 1843 ymosodwyd ar dollbyrth yn Nhrefychan, Cydweli ac ar hyd a lled y gorllewin. Digwyddodd yr ymosodiad cyntaf yng Nghaerfyrddin ar 26 Mai a bellach roedd y gweithredoedd yn dod yn fwy **treisgar**, gan ledaenu i ymosod ar eiddo'r rhai a oedd yn gwrthwynebu Beca. Defnyddiwyd gynnu ar 16 Mehefin pan saethwyd at Gwnstabiliaid Gwirfoddol ger Caerfyrddin ac o ganlyniad i hyn anfonodd y Llywodraeth filwyr o'r diwedd, sef y 4ydd Dragwniaid Ysgeifn o Gaerdydd.

Câi'r tollbyrth eu dinistrio yn ystod y nos gydag unigolyn yn chwarae rhan 'Mam Beca' a'r gweddill yn chwarae rhan ei 'merched'. Ar ôl seremoni fer a oedd yn deillio o'r darn yn y Beibl a nodir uchod, câi'r tollbyrth eu dinistrio. Fodd bynnag, wrth i 1843 fynd heibio, ehangodd cwmpas Beca. Yr enghraifft

© Hawlfraint y Goron. Cedwir yn yr Archifau Cenedlaethol
(The National Archives); <http://bit.ly/2mICCrK>

amlycaf oedd yr ymosodiad ar
dloty Caerfyrddin.

Ar 19 Mehefin gorymdeithiodd 2,000 o gefnogwyr Beca i Gaerfyrddin gyda'r bwriad o gyflwyno eu cwynion i Ynadon Heddwch yn Neuadd y Dref. Ond, yn fuan ymosodwyd ar y **tloty**, sef ffocws dicter yn y dref. Llwyddodd y protestwyr i fynd i'r adeilad, gan achosi difrod ac mae'n debyg eu bod ar fin rhoi'r adeilad ar dân pan gyrhaeddodd y milwyr, a chymryd 60 yn garcharorion.

[Terfysgwyr Beca, fel y'u portreadwyd gan yr Illustrated London News, 1843]



Parth Cyhoeddus - <https://goo.gl/aPb77w>



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

Roedd yr awdurdodau'n ymwybodol iawn o ddifrifoldeb y digwyddiad hwn. Fodd bynnag, ymosodwyd ar fwy o dollbyrth yng Nghaerfyrddin ac anfonwyd llythyrau bygythiol at glerigwyr a oedd yn gorfodi'r Anghydfurfwyr i roi arian i'r Eglwys. Er gwaethaf presenoldeb milwrol trwm, aeth y gweithgarwch yn fwy treisgar gyda thargedau ehangach. Cafodd tlotai yn gyffredinol eu bygwth ynghyd â chlerigwyr a'r bonedd. Ymosododd Beca ar **goredau eogiaid** hefyd, gan fod tirfeddianwyr yn eu defnyddio i argáu afonydd er mwyn sicrhau pysgota eogiaid da ar eu hystadau, a digiodd hynny bobl ymhellach i fyny'r afon. Ymatebodd y tirfeddianwyr drwy ddiswyddo llafurwyr.

Fodd bynnag, erbyn canol 1843, roedd trais cynyddol y terfysgoedd wedi dechrau diflasu llawer o gefnogwyr Beca. Nododd newyddiadur y *Times*, **Thomas Campbell Foster**, y mae ei adroddiadau yn gofnod gwerthfawr o'r digwyddiadau yn ystod y cyfnod hwn, fod llawer o ffermwyr wedi dechrau newid eu tactegau, gan ddymuno sefydlu Undeb Ffermwyr a chynnal cyfarfodydd torfol. Cynhaliwyd y cyfarfod mwyaf ym **Mynydd Sylen**, ger Llanelli, lle dadleuwyd o blaid tactegau mwy cymhedrol.

Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, roedd yn well gan eraill barhau â'u gweithgareddau treisgar, nad oedd ganddynt fawr ddim cysylltiad â Beca. Roeddent yn defnyddio'r protest fel ffordd o fynnu arian drwy drais neu er mwyn achosi helbul. Roedd dau o'r dynion mwyaf adnabyddus – **John Jones**, sef Shoni Sgubor Fawr a **David Davies**, sef Dai'r Cantwr, yn ddynion nad oeddent yn hanu o'r ardal. Ar 6 Medi, ymosododd grŵp o fwy na 100 o Ferched Beca ar dollborth ym Mhontarddulais, a arweiniodd at sawl arestiad. O fewn deuddydd digwyddodd yr unig farwolaeth yn ystod y protestiadau wrth ymyl tollborth yr **Hendy**, pan saethwyd ceidwad y tollau **Sarah Williams**, 75 oed, yn ystod yr ymosodiad ar y tollborth. Dair wythnos yn ddiweddarach, ar ôl i symiau mawr o arian gael eu cynnig am wybodaeth a fyddai'n arwain at eu harestio, cafodd Shoni a Dai eu dal. Yn sgil hyn ac ymateb yr awdurdodau o ran cynyddu'r presenoldeb milwrol yn y gorllewin a'u parodrwydd i ystyried cwynion y ffermwyr edwinodd mudiad Beca, ond gwelwyd ymosodiadau yma a thraw tan 1844.

Effaith protestiadau mewn ardaloedd diwydiannol ac mewn ardaloedd gwledig

Beth oedd canlyniadau'r protestiadau mewn ardaloedd diwydiannol ac mewn ardaloedd gwledig ar ôl 1830?

Canlyniadau Gwrthryfel Merthyr: dienyddiad Dic Penderyn; diddymu'r system dryc, cynrychiolaeth yn y senedd

Cafodd protestiadau mewn ardaloedd diwydiannol ac ardaloedd gwledig gryn dipyn o effaith yn ystod y cyfnod ar ôl 1830. Roedd **Gwrthryfel Merthyr** yn 1831, a drafodwyd eisoes, yn un o'r digwyddiadau mwyaf arwyddocaol a welwyd o ran gweithredu'r dosbarthiadau gweithiol. Byddai'r Gwrthryfel yn cael canlyniadau tymor byr a thymor hir. Roedd y Gwrthryfel, yn ddi-os wedi rhoi ysgytwad i'r Llywodraeth, yn enwedig yr Ysgrifennydd Cartref yr **Arglwydd Melbourne**,



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

a gredai mai Undeb y Glowyr oedd yn gyfrifol amdano. Trafodwyd y mater yn Nhŷr Cyffredin a cheisiwyd bwrw'r bai. Cafodd William Crawshay y bai gan rai, megis papur newydd *The Observer*, a'i cyhuddodd o annog Radicaliaeth yn y dref ac yna dorri cyflogau a diswyddo gweithwyr. Ond yn gyffredinol, roedd yn amlwg bod **yr awdurdodau yn benderfynol o gosbi'r arweinwyr er mwyn dangos na fyddent yn goddef anghydfod na thrais.**


Dechreuodd treial y rhai a gyhuddwyd o gymryd rhan yn y Gwrthryfel ar 13 Gorffennaf 1831, gyda 28 o ddynion a merched yn cael eu cyhuddo o ymosod ar dai a chipio arfau. Cafodd sawl un ohonynt eu trawsgludo am oes, gyda rhai'n cael llafur caled a rhai'n cael eu rhyddfarnu. Fodd bynnag, y dedfrydau a gafodd y sylw mwyaf oedd y rhai a roddwyd i **Lewis Lewis a Richard Lewis**, sef **Dic Penderyn**. Cafodd Lewis Lewis, a oedd eisoes wedi'i gael yn euog o ymosodiad ar dŷ Thomas Lewis ac wedi'i ddedfrydu i farwolaeth, hefyd ei gyhuddo, ar y cyd â Richard Lewis, o ymosod ar filwr o Ucheldiroedd yr Alban a'i anafu â bigod, sef **Donald Black**, gyda'r bwriad o'i ladd.

Dywedodd Donald Black na wyddai pwy oedd yn gyfrifol am yr anhrefn y tu allan i Dafarn y Castell. Yn wir, dim ond dau dyst a enwodd Richard Lewis, sef dau Gwnstabl Gwirfoddol. Roedd gan un, **James Abbott**, achos i gwyno yn erbyn Richard Lewis – mae'n debyg iddynt ymladd â'i gilydd ychydig cyn y Gwrthryfel dros fater diwygio. Ar ddiwedd y treial cafwyd Lewis Lewis yn ddiueuog o'r ymosodiad, ond cafwyd **Richard Lewis yn euog – a'i ddedfrydu i farwolaeth.**

Ar ôl y treial anfonwyd deisebau yn ymbil am drugaredd a chasglwyd tystiolaeth ar y ddwy ochr. Arweiniodd hyn at ohirio'r dienyddiad. Cafodd dedfryd Lewis Lewis ei newid i drawsgludo, ond roedd yr Arglwydd Melbourne yn benderfynol bod yn rhaid gwneud **esiamp** o Richard Lewis. Felly ar 13 Awst, cafodd Richard Lewis, neu **Dic Penderyn, ei ddienyddio yng Nghaerdydd.**

Roedd dienyddio a merthyrdod Dic Penderyn yn un o nifer o ganlyniadau'r Gwrthryfel i Ferthyr. Yn union ar ôl y Gwrthryfel penderfynodd y meistri haearn, o dan arweiniad Josiah John Guest, **roi terfyn ar yr undebau.** Dywedwyd wrth weithwyr yng ngwaith Dowlais a Plymouth am roi'r gorau i'r Undeb neu golli eu swyddi. Cafodd y rhai a wrthododd eu 'cau allan' o'r gwaith ac ar ôl ychydig o fisoedd roeddent yn newynu a bu'n rhaid iddynt ddychwelyd i'r gwaith. Dyma **fuddugoliaeth arall i'r meistri haearn.**

[Plac coffa am Dic Penderyn yn Llyfrgell Merthyr]



Plac coffa am Dic Penderyn yn Llyfrgell Merthyr.

Er nad oedd yn deillio'n uniongyrchol o'r Gwrthryfel, roedd y system dryc yn achos pryder i'r Llywodraeth. O ganlyniad i'r drwg arferion a oedd yn rhemp yn **1831**, o dan y **Ddeddf Tryc** daeth yr arfer o dalu gweithwyr mewn talebau na allant ond eu defnyddio yn siopau'r cwmni yn **anghyfreithlon**. Yn hyn o beth cyflawnodd gweithwyr Merthyr rywbeth cadarnhaol. O ganlyniad i argyfwng diwygio'r senedd a



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

arweiniodd at basio'r Ddeddf Ddiwygio yn 1832 cafodd Merthyr **ei chynrychiolydd cyntaf yn y Senedd** hefyd. Fodd bynnag, arweiniodd yr etholiad ar gyfer y sedd newydd, lle roedd tua phum cant yn gymwys i bleidleisio, at fuddugoliaeth ddiwrthwynebiad i feistr haearn Dowlais, **Josiah John Guest**. Felly roedd yn ymddangos nad oedd gweithredoedd y gweithwyr wedi cael fawr ddim llwyddiant oherwydd mai'r meistri haearn oedd â grym diwydiannol a gwleidyddol bellach.

Fodd bynnag, gallech ddweud, yn y tymor hwy, bod gweithwyr Cymru wedi sylweddoli eu bod yn rhan o ddosbarth yr oedd angen iddo gydweithio er mwyn gwella eu bywydau. Yn wir, awgrymwyd bod Gwrthryfel Merthyr wedi esgor ar **'enedigaeth dosbarth gweithiol Cymru'**. Fel y cyfryw, yn hanes Cymru, mae'r Gwrthryfel wedi cael ei ystyried yn rhan bwysig o hanes, datblygiad a thraddodiad y dosbarth gweithiol.

Y rhesymau dros fethiant mudiad y Siartwyr

Er mai mudiad gwleidyddol mwyaf y cyfnod ydoedd, roedd mudiad y Siartwyr yn **aflwyddiannus ar y pryd** ac ni chyflawnodd fawr ddim. Roedd hyn o ganlyniad i sawl ffactor a oedd o bwys amrywiol. Gwnaeth yr **anghydweld** rhwng ei arweinwyr a'r rhaniad rhwng Siartaeth **'grym moesol' a 'grym corfforol'**, yn anochel, wanhau'r mudiad. Cyfrannodd y diffyg amcanion cyffredin a ddeilliodd o hynny ymhellach at yr anfodlonrwydd yn y mudiad. Oherwydd y defnydd o **drais** gan adain 'grym corfforol' Siartaeth gwnaeth y **dosbarthiadau canol**, a oedd wedi cefnogi'r mudiad yn wreiddiol, **ymbellhau oddi wrtho**. Gwnaeth digwyddiadau fel Gwrthryfel Casnewydd a'r **sylw negyddol yn y wasg** yn eu sgil ddwyn anfri ar y mudiad. Gwnaeth rhai cyhoeddiadau fel *Punch* wawdio Siartaeth a dylanwadodd y rhain ar farn y cyhoedd.

[Cartŵn dychanol a gyhoeddwyd yn 'Punch' yn 1848. Mae'n gwneud hwyl am ben Siartaeth, gan honni dangos 'A Physical Force Chartist Arming for the Fight']

Nid oedd gan Siartaeth **ddigon o arian** ychwaith i gynnal ymgyrch genedlaethol effeithiol. Pan ddechreuodd y dosbarthiadau canol ymbellhau oddi wrtho cyfyngodd hyn ar gyfle'r mudiad i ehangu ei apêl. Mewn oes pan oedd dulliau **cyfathrebu** yn gymharol araf o hyd, er gwaethaf datblygiad y telegraff a'r rheilffyrdd, roedd yn anochel y byddai'r sefydliad yn un darniog o hyd ac yn methu â chyfleu neges genedlaethol yn effeithiol.

Fodd bynnag, mae'n ddiamheuol bron mai'r prif reswm dros fethiant mudiad y Siartwyr oedd **natur radical ei ofynion**, **nad** oedd agweddau'r oes **yn barod i'w derbyn**. Nid oedd



Parth Cyhoeddus - <https://goo.gl/6icfQL>



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

y llywodraethau ar y pryd byth yn debygol o gytuno ar ofynion y Siarter. Pe baent wedi gwneud hynny byddai'r dosbarthiadau tirfeddiannol, yn anochel, wedi colli eu grym a'u dylanwad. Yn hyn o beth, roedd Siartaeth o flaen ei hamser.

Hefyd, roedd **adnoddau grym**, megis y fyddin, y system gyfreithiol, cwnstabiliaid gwirfoddol a'r heddlu, ar gael i'r Llywodraeth. Drwy arestio arweinwyr a chefnogwyr Siartaeth a rhoi dedfrydau byr iddynt bu hynny'n fodd i atal momentwm y mudiad. Fel arfer, arweiniodd **dedfrydau o dymor yn y carchar** at dlodi i deuluoedd carcharorion, a oedd yn rhybudd i eraill. Fel roedd yn digwydd bob tro, edwinodd y gefnogaeth i Siartaeth **pan wellodd yr economi** ar ddiwedd y 1840au, ac yn sgil rhai ymdrechion i wella amodau gwaith fel Deddf Ffatri 1847.

Ond nid oes unrhyw amheuaeth na wnaeth Siartaeth gyfraniad pwysig tuag at yr ymdrechion i ddiwygio'r senedd. Gorfodwyd i'r Llywodraeth ymateb i ofynion y bobl ac yn y tymor hwy cafodd pob un o bwyntiau Siarter y Bobl eu rhoi ar waith, ar wahân i etholiadau blynyddol. Efallai bod hyn, wrth gwrs, yn ddatblygiad naturiol, ond ni ellir gwadu ei dylanwad.

Ymateb y Llywodraeth i'r protestiadau mewn ardaloedd gwledig: arestio troseddwr, trawsgludo a deddfwriaeth yn cynnwys Deddf Newydd y Tlodion, 1834, a'r Ddeddf Tyrpegau, 1844

Ymateb cyntaf yr awdurdodau i'r **Terfysgoedd Swing** oedd difaterwch i ryw raddau gan eu bod yn credu y byddai'r cynnwrf yn dod i ben cyn hir. Felly, roedd y dedfrydau a roddwyd i'r rhai a ddaliwyd yn gymharol ysgafn. Fodd bynnag, erbyn diwedd hydref 1830, roedd yr ymosodiadau ar gynnydd, a hefyd ofn tirfeddianwyr a oedd yn amlwg yn ddylanwadol yn y Senedd. Teimlai dosbarthiadau tirfeddiannol Lloegr o dan fygythiad mawr o ganlyniad i'r terfysgoedd ac ymatebwyd drwy **fesurau llym a chosbedigaethol**.

Dechreuodd Llywodraeth newydd y Chwigiaid a ddaeth i rym ym mis Tachwedd 1830 sylweddoli pa mor ddifrifol oedd y sefyllfa. Rhoddodd yr Arglwydd Melbourne, yr Ysgrifennydd Cartref, gyfarwyddyd i ynadon gofrestru mwy o **gwnstabiliaid gwirfoddol** a ledled siroedd de Lloegr cafodd cannoedd eu **harestio** a'u cyhuddo. Cynigiwyd gwobrau fel ffordd o geisio cael pobl i roi gwybodaeth am y terfysgwyr, ond roedd teyrngarwch lleol yn aml yn golygu bod y cynigion yn ddi-werth. Fodd bynnag, roedd y cynnig o £50 am bob person a oedd yn cael ei ddal a'i gollfarnu am ddinistrio peiriannau yn sylweddol, ond ddim yn agos at y £500 a gynigiwyd os oedd llosgwyr yn cael eu collfarnu. Felly poster oedd y prif ddull o gyfathrebu â chymunedau roedd y Terfysgoedd Swing yn effeithio arnynt.

Roedd y Llywodraeth yn benderfynol o roi pen ar y terfysgoedd ac roedd y rheswm yn amlwg – ymosodwyd ar eiddo tirfeddianwyr cyfoethog gan mwyaf, yr oedd llawer ohonynt yn ASau. O ganlyniad i'r **Terfysgoedd**

[Poster a gyhoeddwyd yn rhybuddio gwerin swydd Gaerloyw yn ystod y Terfysgoedd Swing am ganlyniadau eu gweithredoedd, 1830]

To the Peasantry OF THE COUNTY OF GLOUCESTER.

The Government has required the Magistrates to take immediate measures for putting an end to the disorderly meetings now existing in open defiance of the Laws. The Magistrates have called upon all well affected Persons to aid them in organizing a vigorous resistance to the disturbers of the public peace.

A Force is thus collecting, against which it will be impossible for you to contend.

We are most anxious to prevent the exercise of it.

We assure you, there is every disposition on the part of the Landowners and their Tenantry to listen to your grievances, and to afford all just and reasonable redress. But, it is impossible for those who are intrusted with the maintenance of peace and order, to enter on the consideration of your grievances, while they are made known to them only by disorder, and acts of violence.

For your own sakes, therefore, we implore you to return quietly to your work, to enable us to call a Meeting of your Masters and their Landlords, to take your condition into their consideration, which we pledge ourselves to do; as soon as your return to good order, will justify our interference on your behalf.

SHERBORNE.
APSLEY.
JAMES DUTTON.
J. RAYMOND BARKER.
J. TREVOR.

JOHN BROWN.
H. E. WALLER.
I. B. NEWELL.
JOSEPH CRIPPS.

EDWARD CRIPPS.
CORNELIUS PITT.
WILLIAM PRICE.
WILLIAM LAWRENCE.

WILLIAM FOWLER, PRINTER, CIRENCESTER.

Poster a gyhoeddwyd i werin Caerloyw, 1830, o Archifau Caerloyw



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

Swing safodd 1,976 o garcharorion eu prawf, sy'n golygu mai'r mudiad protest hwn oedd yr un a ddioddefodd y canlyniadau llymaf o bell ffordd yn ystod y cyfnod hwn. O blith y 1,976 o bobl a gyhuddwyd, cafodd 800 eu rhyddfarnu, cafodd **505 eu trawsgludo** i Awstralia, cafodd 644 eu carcharu, cafodd 7 ddiryw a chafodd un ei chwipio. Ond yn bwysicach na hynny, cafodd **19 eu dienyddio**, er i 252 gael eu dedfrydu i farwolaeth yn wreiddiol. Dangosodd y dedfrydau o ddienyddio a thrawsgludo i ba raddau roedd y Llywodraeth yn benderfynol o ymdrin â'r terfysgoedd yn llym.

Roedd problemau tlodi yng nghefn gwlad wedi cyfrannu at alwadau cynyddol i adolygu system cymorth y tlodion a oedd wedi bod ar waith ers Oes Elisabeth. Yn sgil y Terfysgoedd Swing roedd pwysau cynyddol i newid y system. O ganlyniad, yn 1832 sefydlwyd **Comisiwn Brenhinol** i ystyried sut y gellid gwella Deddf y Tlodion a lleihau ei chostau aruthrol. O ganlyniad i'r Comisiwn pasiwyd **Deddf Newydd y Tlodion yn 1834**.

Nod y Ddeddf oedd datrys y problemau a achoswyd gan gostau cynyddol cymorth y tlodion a'r pwysau a roddwyd arno gan boblogaeth gynyddol. Bwriadwyd cyflwyno system unffurf gyda llai o gymhwyster. Wrth wraidd y system newydd roedd y **tloty**. Trefnwyd plwyfi yn undebau a bu'n rhaid i bob undeb adeiladu tloty neu addasu un a oedd yn bodoli eisoes lle y byddai'r tlodion yn byw. Roedd **amodau** yn y tlotai yn **llym, a hynny'n fwriadol**, gyda theuluoedd yn cael eu rhannu a phawb yn byw o dan amodau disgyblaeth a gwaith llym. Ynghyd â deiet gwael i'r rhai a oedd yn ddigon anffodus i orfod mynd i fyw ynddynt, y bwriad oedd y byddai'r tlotai yn fesur atal ac yn sbardun i'r tlodion ddod o hyd i waith.

O ganlyniad, daethant yn ffocws dicter ymhlith y tlodion yn ddi-os, fel y dangoswyd gan yr ymosodiad ar dloty Caerfyrddin yn ystod Terfysgoedd Beca. Fodd bynnag, er i system y tlotai barhau, cafodd Terfysgoedd Beca rywfaint o lwyddiant o ran deddfwriaeth. Un o'r prif gwynion yng ngorllewin Cymru oedd y drwg arferion a oedd yn gyffredin yn system y ffyrdd tyrpeg. O ganlyniad uniongyrchol i weithgareddau terfysgwyr Beca, dechreuodd y Llywodraeth ymchwilio i'w cwynion – ffactor allweddol a oedd yn cyfrif am y ffaith i'r protestiadau ddod i ben yn gymharol fuan.

[Poster yn erbyn Deddf y Tlodion, a gynhyrchwyd yn 1837]



© Hawlfraint y Goron. Cedwir yn yr Archifau Cenedlaethol (The National Archives); <http://bit.ly/1KnXx9E>



1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810 -1848

Sefydlwyd **Comisiwn Ymchwilio** llawn ym mis Hydref 1843 o dan gadeiryddiaeth tirfeddiannwr lleol, **Thomas Frankland Lewis**. Casglwyd tystiolaeth a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 1844. Er ei fod yn dirfeddiannwr, bu Frankland Lewis yn ddiuedd yn ei adroddiad, gan dynnu sylw at brif achosion y terfysgoedd. Daeth i'r casgliad bod **pris y tollau a chamreoli arian** wedi bod yn ffactor pwysig, ymhlith sawl un arall megis talu'r degwm, system y tlotai, anwybodaeth o'r Gymraeg a chynaeafau gwael a arweiniodd at fwy o dlodi na'r hyn a oedd eisoes yn gyffredin yng ngorllewin Cymru.

Argymhellodd yr adroddiad sawl diwygiad i system yr ymddiriedolaethau tyrpeg, a dderbyniwyd gan y Llywodraeth. O ganlyniad, pasiwyd y **Ddeddf Tyrpeg** ym mis Awst 1844. Gwnaeth ostwng y tollau, lleihau nifer y tollbyrth, mwy na haneru'r doll ar galch a sefydlu Byrddau Ffyrdd i gadw golwg ar y ffordd roedd ymddiriedolaethau tyrpeg yn cael eu rheoli. Yn wahanol i'r drefn arferol, rhoddodd Cadeirydd yr Ymchwiliad **glod i'r terfysgwyr**, gan gydnabod eu bod wedi dewis yr unig ffordd o weithredu a oedd yn agored iddynt.

Fodd bynnag, er gwaethaf diwygio'r ymddiriedolaethau tyrpeg, parhaodd problem sylfaenol **tlodi gwledig**, a hefyd y tlotai, talu'r degwm, mecaneiddio cynyddol a'r awydd am dir. Yn yr un modd, yn yr **ardaloedd trefol** parhaodd amodau'r dosbarth gweithiol i fod yn wael ac roedd bywyd yn frwydr feunyddiol. Yn y cyfnod 1810-1848 gwelwyd cryn dipyn o gynnwrf, ynghyd â phrotestiadau eang, ond parhaodd yr **anghydraddoldebau mawr mewn cymdeithas** a dim ond **yn raddol** y byddai llywodraethau olynol yn **derbyn newid**.